


# Bargen Ddinesig Bae Abertawe Adroddiad Blynyddol y Portffolio

## 2021 - 2022

bargenddinesigbaeabertawe.cymru

BDBA@sirgar.gov.uk

# Crynodeb Gweithredol



Prif Swyddfa

**£1.24bn**

| | |
|---|---|
| **£235.7m** | Llywodraeth |
| **£373.7m** | Sector Cyhoeddus |
| **£629.6m** | Sector Preifat |

Mae Bargen Ddinesig Bae Abertawe (BDBA) yn fuddsoddiad na welwyd ei debyg o'r blaen o hyd at £1.3 biliwn ar draws portffolio sy'n cynnwys naw o brif raglenni a phrosiectau sy'n cyflawni cyfanswm o 35 o brosiectau unigol ledled Abertawe, Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot a Sir Benfro. Yn ystod oes y portffolio, gwelir yr effaith ar draws y rhanbarth cyfan gan greu o leiaf 9,000 o gyfleoedd gwaith a chyfraniad disgwyliedig o £1.8-2.4 biliwn mewn Gwerth Ychwanegol Gros.

Yn unol â thair thema cyflymu economaidd, ynni a gweithgynhyrchu clyfar, a gwyddor bywyd a llesiant, dechreuodd y flwyddyn ariannol gyda phump o'r naw achos busnes yn cael eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. O fewn naw mis, cymeradwywyd y pedwar achos busnes arall. Roedd hyn yn garreg filltir bwysig i'r Fargen Ddinesig ym mis Rhagfyr 2021, gyda'r portffolio cyfan yn cyrraedd y cam cyflawni.

Mae cynnydd wedi'i wneud hefyd mewn meysydd eraill dros y flwyddyn. Mae gwaith wedi dechrau ar bum prosiect ac mae tri arall wedi dechrau ymrwymiadau contractiol. Mae'r tair rhaglen ranbarthol hefyd yn prysur ddatblygu wrth i gynlluniau peilot a chyfleoedd ariannu gael eu cyhoeddi.

Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu pa mor uchelgeisiol yw Bargen Ddinesig Bae Abertawe ac yn crynhoi ei gyflawniadau dros y 12 mis diwethaf. Mae'n rhoi statws cyfredol pob prosiect a rhaglen ar ddiwedd mis Mawrth 2022 yn ogystal â chynnwys gweithgareddau allweddol a gyflawnwyd, astudiaethau achos ar effaith Bargen Ddinesig Bae Abertawe, adroddiadau llywodraethu a chrynodeb ariannol ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22.

**Bydd y portffolio yn darparu:**

**£1.8bn**
Gwerth Gros Ychwanegol

**9,000+**
Swyddi a Grewyd

Prif randdeiliaid Bargen Ddinesig Bae Abertawe yw:

Cyngor Abertawe Swansea Council
Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
Neath Port Talbot County Borough · Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Sir Penfro · Pembrokeshire County Council
UK Government Llywodraeth y DU
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Swansea University Prifysgol Abertawe
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David
GIG Cymru NHS Wales Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board
GIG Cymru NHS Wales Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe Swansea Bay University Health Board

# Rhagair

## Y Cynghorydd Rob Stewart

*Arweinydd Cyngor Abertawe a Chadeirydd Cyd-bwyllgor Bargen Ddinesig Bae Abertawe*



Mae'n bleser gennyf gyflwyno ail Adroddiad Blynyddol – blwyddyn lle credaf ein bod wedi llwyddo i ddod drwy bandemig COVID a chyflymu'r broses o adfer ein rhanbarth yn economaidd drwy gyflawni cerrig milltir sylweddol a gweladwy sy'n allweddol i lwyddiant BDBA ac economi ranbarthol De-orllewin Cymru.

Rydym wedi gwneud cynnydd mawr yn ystod y 12 mis diwethaf sydd wedi helpu i greu cydlyniad, codi dyheadau, creu swyddi, ac ailadeiladu'r rhanbarth i roi hwb i'r economi. Mae pob un yn gam sylfaenol tuag at ein hawydd i drawsnewid ein rhanbarth ymhellach i fod yn lle perffaith i weithio a byw.

Ym mis Rhagfyr 2021, ar ôl i'r Prosiect Campysau gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, Bargen Ddinesig Bae Abertawe oedd y rhanbarth cyntaf yng Nghymru gyda'r holl brif brosiectau a rhaglenni yn ei bortffolio yn symud ymlaen i gael eu cyflawni. Mae hyn yn wir yn dangos y gallwn osod ein gweledigaeth a thyfu ein heconomi drwy wireddu ein syniadau a'n cynlluniau.

Mae cwblhau rhai prosiectau o fewn ein portffolio eisoes wedi bod yn gatalydd ar gyfer twf a buddsoddiad pellach yn ein rhanbarth, o fewn a thu hwnt i gylchoedd gwaith portffolio'r Fargen Ddinesig. Mae'r sector creadigol lleol yn ffynnu ers i'r Egin agor ar gyfer busnes yn 2018 ac yn dilyn lansio Arena Abertawe ym mis Mawrth 2022, mae bwytai a thafarndai yn yr ardal gyfagos wedi gweld hwb o ran masnach.

Mae cyfnod hyd yn oed mwy cyffrous o'n blaenau ar gyfer y Fargen Ddinesig ac edrychaf ymlaen at fod yn rhan o'r daith.

## Wendy Walters

*Prif Weithredwr Cyngor Sir Caerfyrddin ac Uwch-berchennog Cyfrifol Bargen Ddinesig Bae Abertawe*



Fel Uwch-berchennog Cyfrifol BDBA, rwy'n falch iawn o'r cynnydd sydd wedi'i wneud dros y 12 mis diwethaf. Mae datblygu achosion busnes a sicrhau eu bod yn mynd trwy'r broses gymeradwyo ranbarthol a phroses gymeradwyo'r llywodraeth wedi bod yn heriol, ond yn werth chweil gan ein bod bellach yn cyflawni'r portffolio llawn.

Rydym wedi buddsoddi llawer o egni yn y Fargen Ddinesig ac wedi profi perthynas waith agosach ar draws y rhanbarth a chyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn ystod 2021. Mae'r gwaith ymgysylltu a'r cydweithrediadau hyn yn sicr yn fantais ychwanegol weladwy y Fargen Ddinesig a gweithio rhanbarthol.

Mae'r sylfeini rydym wedi'u hadeiladu drwy weithio gyda'r pedwar awdurdod lleol, dau fwrdd iechyd a dwy brifysgol, ynghyd â busnesau, wedi bod yn sylfaen i'n huchelgais i ddod hyd yn oed yn gryfach ac i fanteisio ar gyfleoedd sy'n helpu ein heconomi ranbarthol i dyfu.

Rydym yn parhau i ddilyn trefniadau llywodraethu cadarn, wrth ddarparu canlyniadau sicrwydd ac archwilio rhagorol a gwaith monitro ac adrodd trylwyr fel bod pawb sy'n ymwneud â'r Fargen Ddinesig yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau diweddaraf a'r cyfeiriad strategol.

Rwy'n edrych ymlaen at y cyfleoedd y bydd y Fargen Ddinesig yn eu creu dros y 12 mis nesaf i fusnesau lleol a'r manteision a ddaw yn sgil y rhain i'n cymunedau wrth i ni dyfu economi De-orllewin Cymru, gan siapio'r dyfodol am genedlaethau i ddod.

@SBCityDeal

BDBA@sirgar.gov.uk

bargenddinesigbaeabertawe.cymru

# Rhagair



**Jonathan Burnes**
*Cyfarwyddwr Portffolio*
*Bargen Ddinesig*
*Bae Abertawe*

Mae'r 12 mis diwethaf wedi bod yn werth chweil, er yn heriol iawn i'r rhanbarth a minnau'n bersonol. Gan fod pob un o'r naw prosiect a rhaglen bellach wedi cael sêl bendith, mae hyn yn golygu ein bod mewn sefyllfa gref iawn i allu cyflawni'r buddsoddiad amcangyfrifedig gwerth £1.3 biliwn erbyn 2033 a chreu dros 9000 o swyddi.

Wrth imi edrych yn ôl dros y flwyddyn ddiwethaf, rwy'n falch o'r tîm a'n partneriaid o ran yr hyn yr ydym wedi'i gyflawni gyda'n gilydd. Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio (SRP) wedi dod yn gwbl weithredol yn y ddwy flynedd a fu ers i mi gael fy mhenodi. Mae ehangder y sgiliau, y profiadau a'r swyddogaethau ar draws y tîm yn ategu'r timau cyflawni ar draws y rhanbarth er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ac i gyflawni'r portffolio'n llwyddiannus. Mae cynnal trefniadau llywodraethu, sicrwydd ac adrodd cadarn, ynghyd ag ymgysylltu a chyfathrebu effeithiol yn gryfder allweddol o fewn y Swyddfa Rheoli Portffolio a bydd yn chwarae rhan hanfodol yn ystod y broses gyflawni ac wrth gefnogi'r prosiectau sydd eisoes yn weithredol.

Rwy'n edrych ymlaen at y 12 mis nesaf gan y bydd ein holl bartneriaid a sefydliadau cyflawni yn cyd-weithio i gyflawni'r portffolio ymhellach. Wrth wneud hynny, byddwn yn gweld datblygu a newid ar draws y rhanbarth drwy adeiladu seilwaith, creu partneriaethau a chydweithrediadau, datblygu cyfleoedd cadwyn gyflenwi, gwella sgiliau ein gweithlu a chefnogi busnesau i ysgogi, tyfu a lleoli o fewn y rhanbarth.



**Chris Foxall**
*Cadeirydd Bwrdd*
*Strategaeth Economaidd*
*Bargen Ddinesig*
*Bae Abertawe*

Mae'r Bwrdd Strategaeth Economaidd wedi bod yn rhan o flwyddyn brysur arall eto gan gefnogi, ehangu a chynghori BDBA ar gyfleoedd a heriau ar gyfer llawer o'i phrosiectau trawsnewidiol. Mae hwn yn gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i newid llwybr economi ein rhanbarth ac ymateb i heriau Brexit, pandemig Covid-19, newid yn yr hinsawdd a'r argyfwng costau byw.

Rydym wedi darparu canllawiau ar y Prosiect Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer, Pentre Awel, Sgiliau a Thalentau, Campysau a Cham 2 Yr Egin yn ystod y 12 mis diwethaf sydd, yn ein barn ni, wedi cyfrannu gwerth at y prosiectau a'r portffolio yn ei gyfanrwydd.

Wrth i ni addasu i arferion gweithio hybrid a dychwelyd i gyfarfodydd wyneb yn wyneb, byddwn yn cynnal ein rôl ymgynghorol i helpu i wireddu uchelgeisiau Bargen Ddinesig Bae Abertawe a byddwn yn ymestyn ein cefnogaeth i'r Cyd-bwyllgorau Corfforaethol rhanbarthol sydd newydd eu ffurfio a fydd yn ychwanegu ymhellach at ein datblygiad economaidd.


Gan ddefnyddio arbenigwyr blaenllaw ein bwrdd yn y sectorau Hydrogen, Gweithgynhyrchu, Ynni, Tai, Cyllid a Gofal Iechyd, credwn y gallwn adeiladu ar lwyddiant y 12 mis diwethaf i helpu i lunio ein rhanbarth drwy nodi a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i fusnesau o bob maint.

@SBCityDeal

BDBA@sirgar.gov.uk

bargenddinesigbaeabertawe.cymru

# Manteision ac Effaith y Portffolio




Gan ymdrin â'r tair thema isod, nod Bargen Ddinesig Bae Abertawe yw cyflawni'r canlynol:

### Cyflymu'r Economi

Darparu'r lle, y sgiliau a'r cysylltedd i yrru'r economi ranbarthol ymlaen i ddarparu cyfleoedd newydd i'n busnesau a'n cymunedau ffynnu.

**£279m**
Buddsoddiad

Gwerth Gros ychwanegol o
**£1.08bn**

**1,708**
o swyddi newydd

### Gwyddor bywyd a llesiant

Darparu datblygiadau integredig a fydd yn cyfuno cyfleusterau arloesi, ymchwil a dysgu arloesol thwf busnesau newydd a darparu gwasanaethau'n drawsnewidiol o fewn meysydd gwyddorau bywyd, iechyd, llesiant a chwaraeon.

**£336m**
Buddsoddiad

Gwerth Gros ychwanegol o
**£617m**

**2,973**
o swyddi newydd

### Ynni, a Gweithgynhyrchu Clyfar

Rhoi'r rhanbarth ar flaen y gad o ran arloesi ym maes ynni a gweithgynhyrchu fel rhan o'r ymgyrch tuag at economi carbon isel a chryfhau'r sylfaen weithgynhyrchu bresennol.

**£625m**
Buddsoddiad

Gwerth Gros ychwanegol o
**£687m**

**5,005**
o swyddi newydd

# Manteision Hyd Yma

Mae BDBA wedi gweld cynnydd sylweddol o ran y manteision sy'n cael eu darparu a'r gweithgareddau monitro a gwerthuso dros y 12 mis diwethaf.

Rhestrir y manteision allweddol a gyflawnwyd:

- **500+** o gyfleoedd cyflogaeth Cyfwerth ag Amser Llawn (gan gynnwys adeiladu) sy'n cyfateb i 5% o darged BDBA
- Cyfanswm buddsoddiad o tua **£160m**, oddeutu 13% o darged BDBA
- **8000+** wythnos o hyfforddiant cyffredinol a chyfleoedd uwchsgilio a ddarperir ledled y rhanbarth
- Prosiect Sgiliau a Thalentau cyntaf wedi'i ddatblygu, gan weithio mewn partneriaeth â rhaglen Ardal Forol Doc Penfro
- Crëwyd tua **47,380 m.sg** o arwynebedd llawr ar draws themâu Cyflymu'r Economi ac Ynni a Gweithgynhyrchu Clyfar
- Cwblhau Arena Abertawe â **3500** o seddi a'r ardaloedd cysylltiedig a gafodd dros 40,000 o ymwelwyr o fewn y mis cyntaf ar ôl agor
- Cwblhau Canolfan Technoleg y Bae sydd â **2,322 m.sg** o swyddfa fodern a labordai
- Symudodd Yr Egin i'w 3edd flwyddyn o weithredu ac mae ganddo **18** tennant sy'n cynnwys S4C fel yr angor
- Gosod a monitro Synwyryddion Ansawdd Aer yn barhaus, prosiect o fewn y rhaglen Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel
- Gwaith adeiladu ar y gweill ar gyfer dau brosiect, tua **£60m**
- Dyfarnwyd tua **£100m** i Gontractau Seilwaith



Canolfan Dechnoleg y Bae

"Rwyf wedi cael y pleser o gwrdd â llawer o bobl sy'n ymwneud â Bargen Ddinesig Bae Abertawe, sydd â'r uchelgais o greu 9,000 o swyddi newydd. Roedd yn ddiddorol siarad â phartneriaid yn y digwyddiad Arddangos, agoriad yr Arena, Ardal Harbwr Port Talbot a Pharc Ynni Baglan a Phrifysgol Abertawe a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Mae cymeradwyo achosion busnes a gweld y seilwaith yn cael ei adeiladu gan ddefnyddio buddsoddiad gwerth £115m gan Lywodraeth y DU wedi bod yn ysbrydoledig. Mae'n dangos sut y bydd De-orllewin Cymru yn defnyddio cyllid y Fargen Ddinesig sy'n gwneud cymaint o wahaniaeth i'r economi leol."

**David TC Davies**
*Gweinidog Llywodraeth y DU dros Gymru*

# Uchafbwyntiau Allweddol 2021 - 2022

## Ebrill

### Prosiect Ardal Forol Doc Penfro yn cydweithio â Phrifysgol Abertawe

Sicrhaodd Ardal Prawf Ynni Morol (META) Ardal Forol Doc Penfro bartneriaeth gyda Phrifysgol Abertawe ar gyfer profi dull defnyddio ac adalw. Yn ogystal, dyfarnwyd £100k o gyllid i Brifysgol Abertawe yn seiliedig ar brosiect cyfalaf Canolfan Ragoriaeth Peirianneg Ynni Morol i brynu ased prawf gwerth £150k i gefnogi prosiect ynni tonnau Bombora.

## Mai

### Penodwyd Vaughan Gething i arwain ar y Bargeinion Twf yn Llywodraeth Cymru

Penododd Llywodraeth Cymru Vaughan Gething fel Gweinidog yr Economi, a fydd yn arwain ar y Bargeinion Dinesig a Thwf. Ymwelodd ag Arena Abertawe, gan ddweud: "Bydd datblygiad Bae Copr yn creu swyddi newydd yn niwydiannau'r dyfodol – mae hyn wrth wraidd holl Brosiectau'r Fargen Ddinesig."



71/72 Ffordd y Brenin

## Mehefin

### Datblygiad swyddfa yn Abertawe yn cael ei gydnabod am ragoriaeth amgylcheddol

Cydnabuwyd y dyluniad ar gyfer y datblygiad swyddfa uwch-dechnoleg a gynlluniwyd ar gyfer 71/72 Ffordd y Brenin am ragoriaeth amgylcheddol wrth helpu i leihau'r ôl troed carbon a bydd yn cynnwys 'nodweddion gwyrdd' megis to gwyrdd, paneli haul, gwresogi o dan y llawr a system adfer gwres.

## Gorffennaf

### Sêl bendith i brosiect Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer

Cymeradwyodd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru y prosiect Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer gwerth £505.5m a fydd yn hwyluso'r defnydd o dechnolegau ynni effeithlon mewn miloedd o gartrefi, gan ganiatáu i bobl arbed arian, lleihau allyriadau carbon a gwella iechyd.

## Awst

### Prosiect Carbon Isel yn cael sêl bendith

Cymeradwywyd y rhaglen Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel gwerth £58.7m gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Gan weithio ar y cyd â diwydiant, y llywodraeth a'r byd academaidd, bydd yn sicrhau twf carbon isel drwy saith prosiect rhyng-gysylltiedig.

## Medi

### Y Fargen Ddinesig yn noddi gwobr busnes newydd Bae Abertawe

Noddodd Bargen Ddinesig Bae Abertawe gategori Busnes Newydd y Flwyddyn Rhanbarth Bae Abertawe a dyfarnwyd DCW Insights yn enillydd cyffredinol am ei declyn sydd wedi'i gynllunio i gyflymu'r broses o brynu tir ac eiddo.

# Uchafbwyntiau Allweddol 2021 - 2022

## Hydref

### Penodi Bouygues UK i ddechrau cyflwyno cynllun Pentre Awel yn Llanelli

Penodwyd Bouygues UK yn brif gontractwr ar gyfer Pentre Awel Parth 1. Roedd y contract, gwerth oddeutu £70m, yn un o'r contractau uchaf y mae'r Cyngor erioed wedi'i ddyfarnu, gan roi ffocws allweddol ar werth cymdeithasol i sicrhau y bydd pobl leol a busnesau yn elwa.

## Tachwedd

### Yr Egin yn derbyn adolygiad Gateway 5 llwyddiannus

Derbyniodd Yr Egin adolygiad Gateway 5 ar gyfer cam 1 ac roedd yr Adroddiad Adolygu yn dangos sgôr Gwyrdd o ran Asesu Hyder Cyflawni, gyda 7 argymhelliad allweddol. Cynhaliwyd yr adolygiad gan dîm allanol annibynnol yn unol â Chanllawiau'r Ganolfan Sicrwydd Integredig.

## Rhagfyr

### Prosiect Campysau wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU

Cymeradwyodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU y prosiect Campysau gwerth £132 miliwn a fydd yn hyrwyddo arloesedd a thwf busnes yn y sectorau Technoleg Feddygol a Thechnoleg Chwaraeon.

## Ionawr

### Portffolio cyfan wedi'i gymeradwyo a bellach yn cael ei gyflawni

Cymeradwywyd portffolio cyfan y Fargen Ddinesig gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ac mae bellach yn cael ei gyflawni'n llawn – carreg filltir anferth sy'n golygu y gellir canolbwyntio bellach ar gyflawni.

## Chwefror

### Penodwyd contractwyr i osod pyrth Rhyngrwyd Pethau ar gyfer Seilwaith Digidol

Penodwyd contractwyr i osod pyrth Rhyngrwyd Pethau, a ariannwyd ar y cyd gan Lywodraeth Cymru. Dechreuodd 240+ o byrth LoRaWAN gael eu defnyddio a byddant yn darparu cwmpas cynhwysfawr o LoRaWAN ar draws y rhanbarth cyfan.

## Mawrth

### Cymeradwyo prosiect peilot cyntaf Rhaglenni Sgiliau a Thalentau

Cafodd Coleg Sir Benfro ac ysgolion Sir Benfro sêl bendith am y prosiect peilot cyntaf ar gyfer y rhaglen Sgiliau a Thalentau. Bydd cyfleoedd dysgu yn y 'sector gwyrdd' yn creu llwybrau ar gyfer cyflogaeth a bwriedir i'r ddarpariaeth ddechrau ym mis Medi 2022 drwy ddull dysgu cyfunol.



Pentre Awel

# Cynnydd a Wnaed: Ebrill 2021 – Mawrth 2022

## Ebrill

- Gosododd Pentre Awel dendr ar gyfer contractwr Parth 1 drwy Fframwaith Contractwyr De-orllewin Cymru.
- Cyflwynwyd cais am gyllid rhanbarthol i Gronfa Band Eang Llywodraeth Cymru.
- Gosodwyd 70 o synwyryddion monitro ansawdd aer fel rhan o Gefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel.
- Cyflwyniad i Gyfarwyddwr Sgiliau Llywodraeth Cymru i egluro'r Rhaglen Sgiliau a Thalentau.

## Mai

- Cymeradwyo caniatâd cynllunio yn llawn ar gyfer Prosiect Seilwaith Doc Penfro Ardal Forol Doc Penfro.
- Penodwyd Bouygues UK yn brif gontractwr ar gyfer datblygiad Carbon Niwtral 71/72 Ffordd y Brenin.
- Cyllidebau ariannol y Rhaglen Seilwaith Digidol yn cael eu cymeradwyo gan y Bwrdd Digidol.
- Cwblhawyd gweithdy alinio polisi a strategaeth Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.



Seilwaith Digidol

## Mehefin

- Rhoddwyd Trwydded Forol ar gyfer Ardal Profi Ynni'r Môr sy'n rhan o Ardal Forol Doc Penfro a chwblhawyd y defnydd cyntaf.
- Penododd y Rhaglen Seilwaith Digidol Rebecca Llewhellin yn Rheolwr Prosiect.
- Ymwelodd David TC Davies, Gweinidog Llywodraeth y DU, â phrosiect Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel a Champysau.
- Cwblhaodd y fenter Sgiliau a Thalentau Adolygiad Gateway 0 a derbyn sgôr Gwyrdd o ran Asesu Hyder Cyflenwi.

## Gorffennaf

- Cyhoeddodd Yr Egin Astudiaeth Galw'r Sector Creadigol i lywio datblygiadau Cam 2.
- Cymeradwywyd newidiadau dylunio a newid proffil ariannol Matrics Arloesi.
- Penododd y Rhaglen Seilwaith Digidol Dija Oliver yn Rheolwr Prosiect, yn ogystal â Spirit Public Sector fel Ymgynghorydd Arbenigol Allanol.

"Rwy'n falch o weld y cynnydd sylweddol a wnaed ac rwy'n gefnogol iawn i'r gwaith sy'n parhau i gael ei gyflawni. Cyflawnwyd llawer o'r llwyddiant drwy gydweithredu rhanbarthol ac mae'n enghraifft wych o'n dyhead i gydweithio'n rhanbarthol ledled Cymru. Mae hefyd yn braf gweld yr aliniad ag amcanion allweddol Llywodraeth Cymru gan gynnwys ein Cynllun Gweithredu ar yr Economi a'n dull o ran Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Edrychaf ymlaen at weithio gyda phartneriaid i wneud cynnydd ar ein huchelgeisiau cyffredin."

**Vaughan Gething AS**
*Gweinidog yr Economi*
*Llywodraeth Cymru*

# Cynnydd a Wnaed: Ebrill 2021 – Mawrth 2022

## Awst

- Derbyniodd Ardal Forol Doc Penfro Ganiatâd Adeilad Rhestredig gan CADW yn caniatáu i'r prosiect Seilwaith Doc Penfro ddechrau.
- Pentre Awel yn penodi Gleeds fel cymorth gwasanaeth ar Ochr y Cleient Parth 1.
- Dyfarnwyd sgôr Gwyrdd/Ambr o ran Asesu Hyder Cyflenwi i'r prosiect Campysau ar gyfer ei Adolygiad Gateway.
- Penododd y Swyddfa Rheoli Portffolio Heidi Harries yn Swyddog Cyfathrebu a Marchnata.

## Medi

- Cyhoeddodd Ambassador Theatre Group (ATG) y perfformwyr agoriadol ar gyfer Arena Abertawe.
- Cwblhaodd Ardal Profi Ynni'r Môr ei hasesiad o adnoddau llanw a'i phrydlesi Ystâd y Goron ac mae wrthi'n caffael cymorth amrywio caniatâd ar gyfer ei safleoedd dŵr agored.
- Enillodd R&M Williams y contract adeiladu ar gyfer adnewyddu Rhandai'r Awyrendai Ardal Forol Doc Penfro.
- Porthladd Aberdaugleddau yn cael ei gydnabod fel un o'r 10 Porthladd gorau yn y DU sydd â'r potensial i gefnogi masnacheiddio Gwynt Arnofiol ar y Môr.
- Penododd y fenter Sgiliau a Thalentau Sam Cutlan yn Rheolwr Rhaglen.
- Penododd y prosiect Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer Oonagh Gavigan yn Rheolwr Prosiect.



Gweinidog Llywodraeth y DU David T C Davies yn ymweld a Prifysgol Y Drindod Dewi Sant

## Hydref

- Achos busnes Sgiliau a Thalentau wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.
- Sefydlodd Ynni Morol Cymru Celtic Sea Developer Alliance a oedd yn cynnwys 15 o ddatblygwyr gwynt arnofiol gyda phrosiectau yn y Môr Celtaidd.
- Cymeradwyodd Pentre Awel y dyluniadau ar gyfer y Ganolfan Darpariaeth Glinigol, y Ganolfan Ymchwil Glinigol a'r ardaloedd Hamdden.
- Cyflwynodd y Rhaglen Seilwaith Digidol weithdai 5G Rhanbarthol a chymerodd ran yn y Rhaglen Cyflymu 5prinG 5G.
- Cynhaliodd rhaglen Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel weithdai gyda Sgiliau a Thalentau i drafod y sgiliau angenrheidiol ar gyfer yr economi werdd.

## Tachwedd

- Dechreuodd y gwaith ar Randai'r Awyrendai yn Ardal Forol Doc Penfro.
- Roedd David T C Davies, Gweinidog Llywodraeth y DU, wedi ymweld â Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant i gwrdd â disgyblion, a phrentisiaid yn dilyn cymeradwyo'r Achos Busnes Sgiliau a Thalentau.
- Cynhaliodd y fenter Sgiliau a Thalentau gyfarfod cyntaf y Grŵp Atebion Sgiliau. Dechreuodd y gwaith ar y Baromedr Sgiliau i nodi bylchau sgiliau.
- Dechreuodd Bouygues UK ar y gwaith adeiladu ar 71/72 Ffordd y Brenin.

# Cynnydd a Wnaed: Ebrill 2021 – Mawrth 2022

## Rhagfyr

- Gwaith gosod cladin a goleuadau LED ar Arena Abertawe wedi'i gwblhau y tu allan i'r adeilad. Aeth tocynnau ar werth ar gyfer y perfformwyr agoriadol.
- Cyflwynodd Seilwaith Digidol gais am gyllid i Lywodraeth y DU i gyflymu'r broses o ddefnyddio dyfeisiau symudol.

## Ionawr

- Dechreuodd y gwaith o ddatblygu strategaeth gyflawni Cam 2 Yr Egin.
- Ardal Profi Ynni'r Môr yn defnyddio teclyn profi tyrfedd SELKIE a ddatblygwyd gan Brifysgol Abertawe.
- Cyflwynodd Bouygues UK ei gynllun Budd i'r Gymuned ar gyfer Pentre Awel.
- Dyfarnwyd cyllid Llywodraeth Cymru i'r Rhaglen Seilwaith Digidol i ddefnyddio Rhwydwaith Arloesi Rhyngrwyd Pethau, a gynhelir gan y pedwar Awdurdod Lleol.
- Cytunwyd ar Gytundeb Ariannu Sylfaenol rhwng Sir Gaerfyrddin a Chastell-nedd Port Talbot ar gyfer Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer.
- Cwblhawyd Canolfan Dechnoleg Bae Abertawe, a chyhoeddwyd llyfryn.
- Cyflwynwyd y Baromedr Sgiliau i'r Grŵp Datrys Sgiliau.




Arena Abertawe yn ystod digwyddiad 4theRegion

## Chwefror

- Teclyn profi tyrfedd SELKIE yn cael ei godi yn llwyddiannus gan Ardal Profi Ynni'r Môr.
- Llythyr Amrywio Safonol Canolfan Ragoriaeth Peirianneg Ynni Morol Ardal Forol Doc Penfro wedi'i lofnodi, sy'n golygu y gellir manteisio i'r eithaf ar fuddion y grant.
- Trosglwyddo Arena Abertawe i'r ATG a chynhaliwyd digwyddiadau prawf.
- Dechreuodd gwaith ymchwilio tir ac ecoleg ar safle Pentre Awel. Cwblhawyd adolygiadau cynllun Cam 3 ar gyfer Parth 1.
- Penododd Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel Brett Suddell yn Rheolwr Rhaglen.
- Cymeradwywyd y Baromedr Sgiliau gan y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol (RLSP).
- Ymwelodd David T C Davies, Gweinidog Llywodraeth y DU, â Phrifysgol Abertawe i drosglwyddo'r llythyr cymeradwyo ar gyfer Achos Busnes y Campysau.

## Mawrth

- Digwyddiad Arddangos ym Mharc y Scarlets i ddathlu'r ffaith bod y Portffolio yn cael ei gyflwyno'n llawn.
- Agorodd Arena Abertawe yn swyddogol.
- Cynhaliwyd digwyddiad Cwrdd â'r Prynwr ar gyfer Pentre Awel ym Mharc y Scarlets a chytunwyd ar uchafswm pris gwarantedig ar gyfer Parth 1.
- Noddodd Bargen Ddinesig Bae Abertawe y Parth Rhanbarthol yn nigwyddiad 4theRegion, sef y digwyddiad cyntaf a gynhaliwyd yn Arena Abertawe.
- Rhoddodd y rhaglen Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel gyhoeddusrwydd i Gronfa Datblygu Eiddo Glannau Port Talbot.
- Rhoddodd Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer gyhoeddusrwydd i'r Gronfa Cymhellion Ariannol a Chronfa Datblygu'r Gadwyn Gyflenwi.

# Diweddariadau Rhaglen a Phrosiect: Ebrill 2021 – Mawrth 2022

## Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer



Ynni, a Gweithgynhyrchu Clyfar

| | |
|---|---|
| **£505.5m** | **Buddsoddiad** |
| £15.0m | Y Fargen Ddinesig |
| £114.6m | Cyhoeddus |
| £375.9m | Preifat |

Mae Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer yn brosiect arloesol a fydd yn hwyluso'r gwaith o fabwysiadu dyluniadau sy'n effeithlon o ran ynni a thechnolegau adnewyddadwy mewn cartrefi ledled y rhanbarth gan helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd, lleihau allyriadau carbon rhanbarthol a chefnogi twf economaidd lleol.

Bydd cefnogi'r gwaith o ddatblygu cynlluniau adeiladu newydd ac ôl-ffitio cartrefi sy'n bodoli eisoes yn galluogi rhaglen o fonitro a chasglu data cynhwysfawr. Bydd cymorth ariannol i ddatblygu technolegau adnewyddadwy yn y rhanbarth yn sicrhau bod cadwyn gyflenwi leol gynaliadwy.

Cyngor Abertawe Swansea Council

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Neath Port Talbot County Borough – Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Cyngor Sir Penfro Pembrokeshire County Council

### Diweddariadau Allweddol:

- Cymeradwywyd yr achos busnes gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ar ôl cael cymeradwyaeth ranbarthol.
- Recriwtiwyd Rheolwr Prosiect ym mis Medi 2021.
- Ym mis Ionawr 2022, lluniwyd y Cytundeb Cyllid Sylfaenol terfynol rhwng Sir Gaerfyrddin a Chastell-nedd Port Talbot er mwyn gallu dosbarthu cyllid rhwng yr awdurdodau arweiniol a'r awdurdodau sy'n bartneriaid.
- Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r Gronfa Cymhellion Ariannol a Chronfa Datblygu'r Gadwyn Gyflenwi ym mis Mawrth 2022, gan alluogi busnesau i gael gwybod mwy am sut y gallant elwa ar y prosiect hwn.
- Mae gwaith mapio cychwynnol wedi dechrau i ddeall a nodi'r hyn y gallai busnesau sy'n gweithio ar draws y rhanbarth ar hyn o bryd ei gyfrannu tuag at y gadwyn gyflenwi Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer.

**£251m** Cyfraniad at GYC Rhanbarthol

**1,804** Swyddi a Grewyd

**10,300** Cartrefi Newydd a Phresennol wedi'u Gosod gyda Thechnolegau Adnewyddadwy

**10,417+ KWh** Arbed Ynni

**19,000+** Tunelli o ostyngiadau CO² y flwyddyn

# Seilwaith Digidol



Cyflymu'r Economi

| | |
|---|---|
| **£55.3m** | **Buddsoddiad** |
| **£25.0m** | Y Fargen Ddinesig |
| **£13.8m** | Cyhoeddus |
| **£16.5m** | Preifat |

Mae gan y rhaglen yma gysylltiadau ar draws Portffolio a nod y rhaglen yw cefnogi economi ddigidol ffyniannus ledled y rhanbarth a fydd yn ysgogi buddsoddiad yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus, gwella gwasanaethau cyhoeddus a chreu swyddi sy'n talu'n dda. Tair elfen y rhaglen yw:

1. Lleoedd sydd â seilwaith digidol: Yr uchelgais yw y bydd gan bob cartref a busnes yn y rhanbarth fynediad at fand eang symudol neu ffibr llawn sy'n gallu cynnig cyflymder o hyd at 1gbps, 30 gwaith yn gyflymach na band eang cyflym iawn.
2. Cysylltedd Gwledig: Ffocws ar wella mynediad i fand eang yng nghymunedau gwledig.
3. Rhwydweithiau Diwifr y Genhedlaeth Nesaf: Buddsoddi mewn 5G a Rhyngrwyd Pethau a defnyddio achosion, treialon a meinciau arbrofi i annog mabwysiadu technoleg ddychmygol yn gynnar a darparu sylfaen ar gyfer arloesi yn y dyfodol a diogelu'r economi ddigidol yn y dyfodol.

## Diweddariadau Allweddol:

- Mae trefniadau llywodraethu Bwrdd y Rhaglen wedi datblygu drwy benodi Uwch-berchennog Cyfrifol, aelodau ychwanegol o'r Bwrdd a Chadeirydd ac Is-gadeirydd. Cafodd dogfennau amrywiol eu sefydlu a'u diweddaru gan gynnwys y Cylch gwaith, y cofrestrau Risg a Materion a'r cynllun gwireddu Manteision.
- Sicrhawyd £13m o gyllid y sector cyhoeddus ar gyfer y rhanbarth.
- Mae'r Tîm Rhanbarthol bellach yn cael ei gynrychioli ar Grŵp Mabwysiadwyr Cynnar Rhaglenni Cyflymu Seilwaith Cysylltedd Digidol (DCIA) Llywodraeth y DU.
- Mae nifer o brosiectau'r Cynllun Talebau Cymunedol naill ai ar waith neu'n aros am gymeradwyaeth gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon ar draws y rhanbarth. Caiff y canlyniadau eu dadansoddi yn 2022/23.
- Mae gwaith Ymgysylltu â Chyflenwyr wedi bod yn digwydd ac mae Openreach ac Ogi wedi gwneud buddsoddiad preifat sylweddol ledled y rhanbarth yn ystod y flwyddyn. Mae sgyrsiau'n parhau ynghylch cynlluniau buddsoddi sylweddol pellach yn y sector preifat.
- Cynhaliwyd gweithdai cyflawni ac ymgysylltu ar gyfer cynlluniau prosiect unigol ac mae Strategaeth Ddigidol Ranbarthol wedi'i chymeradwyo gan Fwrdd y Rhaglen Seilwaith Digidol ac mae wrthi'n cael ei chyflawni.
- Mae nifer o safleoedd cell symudol newydd wedi'u cynllunio ar draws y rhanbarth ac mae'r strwythurau presennol yn cael eu huwchraddio.
- Mae Pyrth LoRaWAN yn cael eu defnyddio ar draws y Rhanbarth, a chytunwyd ar gaffael ar y cyd rhwng Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe i benodi contractwr i osod yr holl Byrth sy'n weddill.
- Mae gan Dîm canolog y Rhaglen yr holl adnoddau ac mae dau Reolwr Prosiect wedi'u penodi, ynghyd â'r Spirit Public Sector fel Ymgynghorydd Arbenigol Allanol.

**£318.8m**
**Cyfraniad at GYC Rhanbarthol**

**200+** **o Safleoedd Sector Cyhoeddus wedi'u huwchraddio i ffeibr llawn**

**10+**
**Prosiect Band Eang Cymunedol**

**250+** **o byrth Rhyngrwyd Pethau wedi'u defnyddio**

# Sgiliau a Thalentau



Cyflymu'r Economi

| | |
|---|---|
| **£30.0m** | **Buddsoddiad** |
| **£10.0m** | Y Fargen Ddinesig |
| **£16.0m** | Cyhoeddus |
| **£4.0m** | Preifat |

Gan ganolbwyntio'n benodol ar feysydd twf yn y sectorau digidol, adeiladu, ynni, gweithgynhyrchu clyfar ac iechyd a llesiant, bydd y prosiect yn darparu 2,200 o gyfleoedd sgiliau a datblygu ychwanegol ac o leiaf 3,000 o brentisiaethau newydd a fydd yn cefnogi busnesau drwy ganiatáu iddynt dyfu a diogelu ar gyfer y dyfodol drwy ddatblygu gweithlu talentog.

Drwy weithio ochr yn ochr â phartneriaid o'r sector preifat, diwydiant, addysg uwch ac addysg bellach, ysgolion a'r trydydd sector, bydd tîm y prosiect yn nodi bylchau yn y ddarpariaeth bresennol ac yn pennu'r newidiadau sydd eu hangen i ddatblygu cyrsiau a fframweithiau newydd i fodloni'r bylchau hyn o ran sgiliau. Bydd prosiectau peilot yn cael eu datblygu sy'n cyd-fynd ag anghenion diwydiant a themâu allweddol y Fargen Ddinesig.

## Diweddariadau Allweddol:

- Dyfarnwyd sgôr Gwyrdd o ran Asesu Hyder Cyflawni i'r rhaglen yn dilyn adolygiad sicrwydd y Rhaglen Gateway 0.
- Cymeradwywyd yr achos busnes gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ar ôl cael cymeradwyaeth ranbarthol.
- Roedd y Gweinidog David T C Davies wedi ymweld â Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Choleg Gŵyr i drosglwyddo'r nodyn cymeradwyo ac wedi cyfarfod â myfyrwyr a busnesau gan gynnwys y rhai sy'n cymryd rhan yn yr astudiaeth beilot Sgiliau a Thalentau.
- Ychwanegodd y tîm at ei adnodd cyflawni drwy benodi Rheolwr Rhaglen.
- Sefydlwyd y Grŵp Datrys Sgiliau a rhoddwyd cytundebau ar waith o ran sut y dylid datblygu'r rhaglen.
- Cafodd Baromedr Sgiliau, sy'n nodi anghenion a bylchau o ran sgiliau, ei gwblhau a'i gyflwyno i'r Grŵp Datrys Sgiliau.
- Lansiwyd cronfa'r Rhaglen Sgiliau a Thalentau ym Mharc y Scarlets.
- Cymeradwywyd y prosiect peilot cyntaf mewn partneriaeth â Choleg Sir Benfro ym mis Mawrth 2022 a bwriedir dechrau'r gwaith cyflawni ym mis Medi 2022.

Cyngor Abertawe Swansea Council · Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council · Neath Port Talbot County Borough / Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot · Cyngor Sir Penfro Pembrokeshire County Council · Regional Learning and Skills Partnership South West Wales

**2,200** Sgiliau Ychwanegol

**14,000** Pobl wedi'u Uwchsgilio

**3,000** Cyfleoedd Prentisiaeth Newydd

**20** Cyrsiau a Fframweithiau Newydd

**2+** Canolfannau Rhagoriaeth a Ddatblygwyd

# Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau



Cyflymu'r Economi

| | |
|---|---|
| **£168.4m** | **Buddsoddiad** |
| £50.0m | Y Fargen Ddinesig |
| £78.5m | Cyhoeddus |
| £39.9m | Preifat |

Bydd y rhaglen hon yn sbarduno datblygiad economaidd a thwf ac mae'n cynnwys:

1. Datblygiad Arena Abertawe â chapasiti o 3,500 yn ardal cam un newydd Bae Copr gwerth £135m yng nghanol y ddinas a fydd yn darparu ar gyfer cerddoriaeth fyw, comedi, theatr, cynadleddau a digwyddiadau eraill.
2. Datblygiad swyddfa o'r radd flaenaf yn 71/72 Ffordd y Brenin a fydd yn darparu lle ar gyfer 600 o swyddi, gan gynnwys amgylcheddau cydweithio hyblyg a gofod swyddfa ar gyfer busnesau yn y sectorau technoleg a digidol arloesol. Bydd yn adeilad carbon sero net pan fydd ar waith.
3. Datblygiadau Matrics Arloesi a Rhodfa Arloesi a gaiff eu darparu gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, a fwriedir ar gyfer rhoi lloches i fusnesau newydd a meithrin entrepreneuriaeth drwy gysylltiadau agos â'r byd academaidd.

Cyngor Abertawe Swansea Council

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop European Regional Development Fund

71/72 Ffordd y Brenin yn cael ei ariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru.

## Diweddariadau Allweddol:

- Cafodd yr Arena ei hadeiladu, dan arweiniad Grŵp Buckingham, drwy gydol y flwyddyn. Ar ôl gosod y bont gopr origami a dorrwyd gan laser ym mis Mawrth 2021, parhaodd y gwaith ar yr ardal gyfagos gan gynnwys gwaith tirlunio caled a meddal ar y parcdir arfordirol.
- Cyhoeddwyd y perfformwyr agoriadol ym mis Medi 2021, gan gynnwys Royal Blood a John Bishop, a dechreuodd y tocynnau gael eu gwerthu ym mis Rhagfyr.
- Cafodd yr Arena ei throsglwyddo'n swyddogol i'r ATG ym mis Chwefror a chynhaliwyd digwyddiadau prawf cyn i'r Arena gael ei hagor yn swyddogol ym mis Mawrth 2022.
- Penodwyd Bouygues UK yn brif gontractwr ar gyfer 71/72 Ffordd y Brenin ym mis Mai 2021 a dechreuodd y gwaith adeiladu ym mis Tachwedd yr un flwyddyn. Cydnabuwyd y datblygiad hefyd am ragoriaeth amgylcheddol am ei 'nodweddion gwyrdd' ac am helpu i leihau ôl troed carbon y ddinas.
- Aeth gwaith datblygu yn ei flaen hefyd ar y Matrics Arloesedd a chyflwynwyd a chymeradwywyd cais am newid gan y Cyd-bwyllgor ym mis Gorffennaf 2021, ac yna cwblhawyd dyluniadau cam 3 RIBA.

**£669.8m** Cyfraniad at GYC Rhanbarthol

**8,000+** Wythnosau Hyfforddi

**1,281** Swyddi a Grewyd

**10,684 m.sg** Cyfleuster ar Gyfer Busnesau sy'n Canolbwyntio'n Ddigidol

**50+** Cyfleoedd a lle i Fusnesau Newydd i Raddedigion

**3,500** Arena dan do capasiti

# Astudiaeth Achos: Arena Abertawe

Penodwyd Grŵp Buckingham yn brif gontractwr gan Gyngor Abertawe i adeiladu'r Arena a dechreuodd y gwaith ar ddiwedd 2019. Ym mis Chwefror 2022, trosglwyddwyd yr arena i'r ATG a chynhaliwyd y lansiad swyddogol ym mis Mawrth 2022.

Roedd Mark Drakeford, Prif Weinidog Llywodraeth Cymru, a David T C Davies, Gweinidog Llywodraeth y DU, yn bresennol yn y digwyddiad lansio a arweiniwyd gan y Cynghorydd Rob Stewart, ac roedd yn ffordd berffaith o ddathlu prosiect arall y Fargen Ddinesig yn cael ei gyflawni ar amser ac o fewn y gyllideb.

Yn ystod y cyfnod adeiladu, darparodd y prosiect 722k o oriau o gyflogaeth, sef tua 140 o swyddi cyfwerth ag amser llawn am bob blwyddyn o adeiladu mewn amrywiaeth mawr o grefftau gan gynnwys plymio, plastro, gwaith trydan, tirlunwyr, gweithwyr concrit a thowyr. Darparwyd 8,197 o wythnosau person o hyfforddiant hefyd.

Ers agor ei drysau, mae ATG wedi creu cyfleoedd gweithredol a chyfleoedd cadwyn gyflenwi gydag oddeutu 21 o weithwyr llawn amser mewn rolau gan gynnwys marchnata, gweithrediadau, bwyd a diod, technegol a digwyddiadau. Hefyd, mae ATG yn cyflogi rhwng 100 a 150 o staff achlysurol yn ystod cyngherddau a digwyddiadau ar gyfer diogelwch, criw technegol a lletygarwch.

O ganlyniad i berfformwyr agoriadol megis John Bishop, Royal Blood a Michael McIntyre a digwyddiadau gan gynnwys Cynhadledd Canol Dinas 4theRegion, Seremonïau Graddio Prifysgol Abertawe, Seremonïau Graddio Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Confensiwn Comics a Gemau Abertawe, gwelwyd dros 40,000 o ymwelwyr yn ystod y mis cyntaf. Mae poblogrwydd yr arena yn tyfu wrth i berfformwyr o'r radd flaenaf ym myd cerddoriaeth a chomedi sicrhau dyddiadau ar gyfer y 12 mis nesaf ac mae nifer y dilynwyr ar y cyfryngau cymdeithasol yn cynyddu'n barhaus. Mae hyn yn cadarnhau bod y prosiect yn dangos llwyddiant yn ei ddyddiau cynnar ac ar y llwybr cywir i greu gwaddol i'r rhanbarth.






"Mae agoriad swyddogol Arena Abertawe yn dangos nad yw Abertawe bellach yn ddinas o argraffiadau arlunwyr. Rydym o ddifrif ynghylch cyflawni ac rydym wedi cyflawni ein haddewidion i bobl y ddinas drwy'r rhaglen fuddsoddi gwerth £1bn a stori adfywio sy'n parhau i dyfu ac sy'n datblygu ar draws Abertawe a'r rhanbarth cyfan.
Mae rhan o ddatblygiad cam un Bae Copr wedi creu cyrchfan hamdden newydd wych a channoedd o swyddi a chyfleoedd i bobl leol, gan helpu i gefnogi busnesau lleol a chael mwy o ymwelwyr yng nghanol y ddinas. Mae Bae Copr, gwerth £17.1m y flwyddyn i economi Abertawe, eisoes yn gatalydd ar gyfer hyd yn oed mwy o swyddi a buddsoddiad ac mae Abertawe mewn sefyllfa dda iawn i symud ymlaen o effaith economaidd Covid."

**Y Cynghorydd Rob Stewart**
*Arweinydd Cyngor Abertawe*

" Rydym wedi bod yn falch iawn o'r dull partneriaeth y mae Cyngor Abertawe wedi'i fabwysiadu o ran y prosiect, gan ganiatáu i ni gyfrannu at ddyluniadau terfynol ac ystyriaethau gweithredol i sicrhau'r lleoliad gorau posibl ar gyfer yr ardal. Yr hyn yr ydym wedi'i ddysgu yn yr amser byr yr ydym wedi bod yn fyw yw bod chwant gwirioneddol gan y gymuned am adloniant byw premiwm rheolaidd ar drothwy'r drws - mae gwerthiant tocynnau wedi bod ymhlith y gorau yn y wlad ar gyfer rhai sioeau, ac mae adborth ar noson y digwyddiadau wedi bod yn gadarnhaol iawn o ran yr effaith y mae'r lleoliad wedi'i chael ar y ddinas ochr yn ochr ag ansawdd y lleoliad ei hun a'r effaith y mae'n ei chael ar orwel y ddinas."

**Lisa Mart**
*Cyfarwyddwr Lleoliad*
*Ambassador Theatre Group*

@SwanseaArena

@ArenaSwansea

swansea-arena.co.uk

# Yr Egin




Cyflymu'r Economi

| | |
|---|---|
| **£25.2m** | **Buddsoddiad** |
| £5.0m | Y Fargen Ddinesig |
| £18.7m | Cyhoeddus |
| £1.5m | Preifat |

Clwstwr digidol a chreadigol yw Canolfan S4C Yr Egin, ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yng Nghaerfyrddin. Mae gan adeilad eiconig Yr Egin awditoriwm, cysylltedd cyflym iawn, llecynnau swyddfa o'r radd flaenaf a chyfleusterau ôl-gynhyrchu ar gyfer gweithgareddau proffesiynol a chymunedol.

Gyda'r darlledwr Cymraeg S4C yn brif denant a llawer o'r cwmnïau creadigol a digidol mwyaf blaenllaw yng Nghymru yn cydleoli yn y ganolfan, nod Yr Egin yw bod yn gatalydd ar gyfer cymuned clwstwr creadigol, ysbrydoli cydweithio, datblygu talent, a gwella statws y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin.

Bydd ail gam yn cefnogi'r sector diwydiant creadigol yn y rhanbarth, gan ganiatáu ar gyfer ymgysylltu ar draws sectorau rhwng busnesau newydd a sefydledig ar draws De-orllewin Cymru. Bydd yn darparu ar gyfer amrywiaeth o wasanaethau technolegol 'newydd' a fydd ar gael i'r rhanbarth.

## Diweddariadau Allweddol:

- Ym mis Tachwedd 2021, dathlodd cam un Canolfan S4C Yr Egin dair blynedd ers ei hagor yn swyddogol.
- Comisiynodd S4C adroddiad effaith economaidd yn 2021 yn amlinellu manteision allweddol S4C yn cael ei lleoli'n Sir Gaerfyrddin.
- Cwblhawyd Astudiaeth Galw'r Sector Creadigol ym mis Awst 2021, yn amlinellu gofynion y sector creadigol a bydd y canfyddiadau hyn yn cael eu hystyried wrth ddatblygu Cam 2 Yr Egin.
- Cafwyd trafodaeth yn ystod rhan olaf y flwyddyn gyda'r Bwrdd Strategaeth Economaidd, rhanddeiliaid rhanbarthol a diwydiant i ddiffinio sut i roi ystyriaeth i'r canfyddiadau.
- Arweiniodd adolygiad sicrwydd Gateway 5 at sgôr Gwyrdd o ran Asesu Hyder Cyflawni ar gyfer Cam 1 y prosiect a bydd y gwersi a ddysgwyd o'r adolygiad yn llywio ac yn cefnogi'r gwaith o lunio Cam 2.

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

**£89.5m** Cyfraniad at GYC Rhanbarthol

**427** Swyddi a Grewyd

**150** Cyfleoedd Sgiliau a Hyfforddiant a Grewyd

**167** Gweithle Adeiladu Cyfleoedd Cyflogaeth

**3,912 m.sg** Gweithle a grewyd yn ystod Cam 1

**25** Busnesau Bach yn y Sector Creadigol

# Astudiaeth Achos: Yr Egin

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Egin oedd prosiect cyntaf y Fargen Ddinesig a gymeradwywyd ac sy'n gweithredu fel busnes - cartref i 18 busnes yn y sector creadigol gan gynnwys y prif denant, S4C, ers mis Hydref 2018. Nod yr Egin, a gyflawnwyd gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ac a leolwyd wrth ochr campws y Brifysgol yng Nghaerfyrddin, oedd datblygu diwydiant creadigol y rhanbarth a chefnogi'r Iaith Gymraeg a'i diwylliant.

Rhyddhaodd S4C adroddiad a gynhaliwyd gan Arad Research ym mis Ebrill 2021 a oedd yn amlinellu llwyddiant economaidd Yr Egin hyd yn hyn. (Mae'r ffigurau a ddyfynnir ar gyfer 12 mis, blwyddyn galendr 2019-2020 )

- Effaith economaidd **£197.4m** i economi'r DU
- Effaith economaidd **£141.1m** i economi Cymru
- Effaith economaidd **£18.2m** i economi Sir Gaerfyrddin
- **61%** o gyflenwyr wedi cael positif effaith ar drosiant
- **101** staff cyfwerth â llawn amser
- **32** gweithwyr sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin
- **30-40%** prentisiaid diwydiant creadigol yng Nghymru'n gweithio ar gynyrchiadau S4C

“Mae bod yn rhan o gymuned ryngweithiol, ddigidol wedi bod yn wych ar gyfer rhwydweithio gydag eraill, yn enwedig gydag S4C a'r myfyrwyr sy'n astudio ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Wrth i Stiwdiobox barhau i dyfu rwy'n edrych ymlaen yn fawr at gwrdd â mwy o ddisgyblion lleol, myfyrwyr ac ymarferwyr addysg a all elwa o'r gweithgareddau dwyieithog, digidol sydd gennyf i'w cynnig.”

**Marc Griffiths**
*Sylfaenydd*
*Stiwdiobox yn Yr Egin*



# Astudiaeth Achos: Yr Egin

“Mae Canolfan S4C Yr Egin, a fydd yn dathlu ei thrydedd flwyddyn weithredu ym mis Hydref, wedi sefydlu ei hun fel calon y gymuned greadigol yng Nghaerfyrddin. Mae'r adeilad eiconig hwn wedi bod yn lleoliad perffaith ar gyfer cydweithio rhwng y prif denant S4C, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Busnesau Bach a Chanolig, ac mae cryfderau'r perthnasoedd hyn wedi bod yn allweddol wrth adeiladu clwstwr creadigol ffyniannus. Rwy'n falch iawn o'r cyfleoedd gwaith y mae'r Egin wedi'u creu, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, ac mae'r hwb i'r Gymraeg wedi bod yn wych.

Gan fod Sir Gaerfyrddin yn cynnal Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd y flwyddyn nesaf, mae'r Egin yn sicr o chwarae rhan ganolog, a fydd o fudd pellach i'r economi leol.

Mae'r prosiect Bargen Ddinesig hwn wedi cael effaith economaidd gadarnhaol ar Gymru gyfan, yn ogystal â Sir Gaerfyrddin ac rwy'n edrych ymlaen at gam 2 Yr Egin a sut y gall barhau i dyfu'r sector creadigol ar draws y rhanbarth.”

**Y Cynghorydd Darren Price**
*Arweinydd Cyngor Sir Caerfyrddin*

“Mae S4C bellach wedi ymgartrefu yng Nghaerfyrddin, ac rydym wrth ein bodd ein bod wedi gallu cyflogi nifer fawr o bobl leol dalentog i weithio gyda ni. Wrth i'r cyfyngiadau symud ddod i ben rydym yn awyddus i wneud mwy yn yr ardal sydd mor allweddol i ddyfodol y Gymraeg ac yn ddiweddar mae dwy gyfres ddrama wedi cael eu ffilmio o amgylch Caerfyrddin.

Yn ogystal â hyn mae sawl cyfres o raglen "Jonathan" wedi'u recordio yn Yr Egin, sydd wedi dod â sŵn a chyffro cynhyrchiad teledu i'r adeilad ac rydym yn gobeithio cynyddu hyn yn ystod y misoedd nesaf.”

**Siân Doyle**
*Prif Weithredwr*
*S4C*



# Pentre Awel



| | |
|---|---|
| **£200.5m** | **Buddsoddiad** |
| £40.0m | Y Fargen Ddinesig |
| £52.3m | Cyhoeddus |
| £108.2m | Preifat |

Gwyddor bywyd a llesiant

Gan gyfuno ymchwil gwyddor bywyd, cyfleusterau datblygu busnes, gofal iechyd cymunedol, byw gyda chymorth a chanolfan hamdden a gweithgareddau dŵr o'r radd flaenaf, bydd Pentre Awel yn Llanelli ymhlith y datblygiadau cyntaf o'i fath. Bydd cyfleusterau addysg a hyfforddiant wrth wraidd y prosiect a bydd yn canolbwyntio ar hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o weithwyr gofal iechyd proffesiynol.

## Diweddariadau Allweddol:

- Penodwyd Gleeds i ddarparu gwasanaethau rheoli adeiladu ar ochr y cleient ar gyfer Parth 1 ym mis Awst 2021 ac mae cyfnod y tendr ar gyfer datblygiad dylunio Parth 3 hefyd wedi dod i ben.
- Dyfarnwyd y tendr i Bouygues UK ar gyfer adeiladu Parth 1 ym mis Hydref a oedd yn cynnwys cydrannau megis addysg, sgiliau a hyfforddiant, ynghyd â darpariaeth glinigol ac ymchwil.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd cychwynnol gyda Gleeds a Bouygues i ddechrau'r broses a chytuno ar gynllun gweithredu'r prosiect.
- Sefydlwyd grŵp Budd i'r Gymuned i sicrhau y manteisir i'r eithaf ar fudd i'r gymuned drwy gylch bywyd cyfan y Prosiect.
- Cwblhaodd pob gweithgor strategol yn unol â'u maes gorchwyl a sefydlwyd grwpiau gweithredu pwnc penodol o fewn strwythur llywodraethu cyffredinol y prosiect.
- Cafwyd cadarnhad cynllunio yn Chwarter 3 i gyflawni agweddau arloesi Parth 1, gan gynnwys y Labordy Byw.
- Enwyd Prifysgol Caerdydd fel y partner strategol sydd ar waith i arwain ar swyddogaethau datblygu busnes ac arloesi gan adeiladu ar eu partneriaeth arloesedd a'u harbenigedd. Bydd hyn yn rhan o rwydwaith arloesi gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Abertawe.
- Dechreuodd Bouygues UK ar ei raglen cyn-adeiladu ar gyfer Parth 1 yn 2022, gan gynnal adolygiadau dylunio gyda thenantiaid, paratoi Cais Materion a Gedwir yn Ôl a rhoi ar waith yr amodau cynllunio cyn cychwyn drwy arolygon ecoleg a gwaith Ymchwiliad Tir.
- Cytunodd Cyngor Sir Caerfyrddin a Bouygues UK hefyd ar Uchafswm Pris Gwarantedig ar gyfer gwaith Parth 1. Cafwyd cymeradwyaeth gan y Cyngor Llawn i ddirprwyo awdurdod i'r Uwch-berchennog Cyfrifol i symud ymlaen ar y sail hon gyda sicrwydd o ran fforddiadwyedd.
- Cynhaliwyd digwyddiad Cwrdd â'r Prynwr ym Mharc y Scarlets ym mis Mawrth, lle bu dros 120 o fusnesau yn bresennol i edrych ar y cyfleoedd cadwyn gyflenwi sydd ar gael.

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

**£467m**
Cyfraniad at GYC Rhanbarthol

**1,853**
Swyddi a Grewyd

**50,000 m.sg** o ddatblygiad ar draws y pedwar Parth

**12,000 m.sg** i fusnesau, ymchwil, addysg, clinigol ac ir gymuned

**80** o Fusnesau Gwyddor Bywyd wedi'u Sefydlu/Cefnogi

# Campysau



Gwyddor bywyd a llesiant

| | |
|---|---|
| **£135.0m** | **Buddsoddiad** |
| £15.0m | Y Fargen Ddinesig |
| £58.0m | Cyhoeddus |
| £62.0m | Preifat |

Bydd y prosiect Campysau yn cyflwyno dwy fenter ategol sy'n ychwanegu gwerth at y sectorau gwyddor bywyd, iechyd a chwaraeon rhanbarthol; un ar Gampws Singleton Prifysgol Abertawe ac un yn Ysbyty Treforys.

Bydd cyfleusterau ymchwil a datblygu uwch yn cael eu creu, gan adeiladu ar lwyddiant y Sefydliad Gwyddor Bywyd yn Ysgol Feddygol Prifysgol Abertawe. Yn sgil y cydweithio rhwng meysydd ymchwil academaidd, diwydiant a'r GIG, bydd y prosiect Campysau ar flaen y gad o safbwynt technolegau newydd i wella gofal iechyd, a hynny gan greu cwmnïau gwyddor bywyd a thechnoleg chwaraeon newydd ac arloesiadau yn ogystal â swyddi tra medrus.



## Diweddariadau Allweddol:

- Datblygwyd yr achos busnes yn gynnar yn y flwyddyn gyda phrawf a her gan y Bwrdd Strategaeth Economaidd a Bwrdd Rhaglen y Fargen Ddinesig (Portffolio). Derbyniwyd cyngor gwerthfawr a chafodd ei gynnwys yn y prosiect cyn ei gymeradwyo'n rhanbarthol.
- Ym mis Mehefin 2021, ymwelodd y Gweinidog David TC Davies â Phrifysgol Abertawe i gael dealltwriaeth o'r prosiect a'r partneriaethau cyn cyflwyno'r prosiect i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i'w gymeradwyo.
- Ym mis Awst 2021, cwblhaodd y prosiect Adolygiad Gateway a chafodd sgôr Ambr/Gwyrdd o ran Asesu Hyder Cyflawni.
- Penodwyd Rheolwr Prosiect a Rheolwr Cyfathrebu a Chysylltiadau.
- Cymeradwywyd yr Achos Busnes gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2021 ac ym mis Chwefror, ymwelodd y Gweinidog David T C Davies â'r prosiect i drosglwyddo'r llythyr cymeradwyo.

Cyngor Abertawe Swansea Council | Swansea University Prifysgol Abertawe | GIG Cymru NHS Wales Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe Swansea Bay University Health Board

**£150m** Cyfraniad at GYC Rhanbarthol

**700 m.sg** Canolfan Cydweithio Masnachol ac Academaidd

**1,120** Swyddi a Grewyd

**300+** Cyfleoedd Mewnfuddsoddi

**2,000 m.sg** Lle Ymchwil ar gyfer gwyddor bywyd a thechnoleg chwaraeon

**100+** Arloesi a Chyfleoedd Masnachol

# Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel



Ynni, a Gweithgynhyrchu Clyfar

| | |
|---|---|
| **£58.7m** | **Buddsoddiad** |
| **£47.7m** | Y Fargen Ddinesig |
| **£5.5m** | Cyhoeddus |
| **£5.5m** | Preifat |

Bydd y rhaglen hon yn darparu saith elfen sy'n cefnogi swyddi a thwf yn y sectorau technoleg ac arloesi carbon isel.

1. Mae Canolfan Dechnoleg y Bae yn darparu swyddfeydd hyblyg.
2. Mae Canolfan Ddiwydiannol Pontio o Garbon De Cymru yn gyfleuster arbenigol i gefnogi'r diwydiant dur a metelau.
3. Mae'r Cyfleuster Cynhyrchu Gweithgynhyrchu Uwch yn darparu cyfleusterau hybrid, unedau cynhyrchu a swyddfeydd ar gyfer busnesau newydd a busnesau yn y sectorau arloesi.
4. Mae'r Gronfa Datblygu Eiddo yn gyllid llenwi bwlch o £10m sydd â'r nod o annog datblygiadau yn ardal Glannau Port Talbot.
5. Datblygu strategaeth Gwefru Cerbydau Allyriadau Isel drwy ardal y cymoedd.
6. Bydd y Prosiect Monitro Ansawdd Aer yn profi synwyryddion cost isel amgen i asesu ansawdd aer a llygredd.
7. Mae'r Prosiect Ysgogi Hydrogen yn galluogi trosi trydan adnewyddadwy sydd dros ben o Ganolfan Dechnoleg Bae Abertawe yn danwydd hydrogen ar gyfer cerbydau.

Neath Port Talbot County Borough / Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot · Swansea University / Prifysgol Abertawe · University of South Wales / Prifysgol De Cymru · Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop / European Regional Development Fund

Mae'r prosiect yma yn cael ei ariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru.

## Diweddariadau Allweddol:

- Yn dilyn gweithdy polisi ac ymweliad gan David T C Davies, Gweinidog Llywodraeth yn mis Awst cymeradwywyd y rhaglen gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.
- Gweithdy Rhaglen Sgiliau a Thalentau i drafod anghenion sgiliau'r economi werdd.
- Ym mis Ebrill, dechreuwyd gosod y monitorau ansawdd aer.
- Ym mis Ionawr, cwblhawyd gwaith adeiladu Canolfan Dechnoleg Bae, a chyhoeddwyd llyfryn marchnata.
- Symudwyd ymlaen â'r gwaith o ddatblygu strategaeth ar gyfer y prosiect Seilwaith Gwefru Cerbydau Allyriadau Isel a chafodd adnodd pwrpasol ei bennu a'i roi ar waith cyn diwedd mis Mawrth 2022.
- Parhaodd y gwaith o ddatblygu'r Prosiect Ysgogi Hydrogen a dechreuodd y gwaith ar y safle.
- Parhaodd gweithgor ar y cyd rhwng Cyngor Castell-nedd Port Talbot a Phrifysgol Abertawe ar gyfer SWITCH i ddatblygu'r fanyleb adeiladu a'r gofynion o ran offer.
- Symudodd y fanyleb adeiladu ar gyfer y Cyfleuster Cynhyrchu Gweithgynhyrchu Uwch yn ei blaen ac ymgysylltwyd â Diwydiant Cymru a phartïon eraill sydd â diddordeb.
- Penodwyd Rheolwr Rhaglen ym mis Chwefror.
- Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i Gronfa Datblygu Eiddo Glannau Port Talbot gwerth £10m.

**£93m** Cyfraniad at GYC Rhanbarthol

**£10m** Gronfa Cymhellion Ariannol

**1,320** Swyddi a Grewyd

**45** Mentrau sy'n cyfrannu at ymchwil a gefnogir

**18,500 m.sg** Gofod Llawr wedi'i Greu ar gyfer y Sector Ynni Isel

**4 patentau** Wedi'u cofrestru ar gyfer cynhyrchion

# Astudiaeth Achos: Canolfan Dechnoleg Bae Abertawe

Dyfarnwyd y contract i Morgan Sindall Construction i adeiladu Canolfan Dechnoleg Bae Abertawe a arweiniwyd gan gyngor Castell-nedd Port Talbot ac a oedd yn werth tua £7.9m. Dechreuodd y gwaith adeiladu ym mis Ionawr 2021, a chafodd ei gwblhau ym mis Ionawr 2022, ar amser ac o fewn y gyllideb.

Creodd Canolfan Dechnoleg y Bae 16 o swyddi newydd i bobl leol yn ystod y cyfnod adeiladu. Roedd hyn yn cynnwys 7 prentisiaeth mewn amrywiaeth o grefftau adeiladu. Darparwyd cyfanswm o 380 o wythnosau hyfforddi yn ystod y prosiect. Roedd hefyd yn darparu 8 o gyfleoedd profiad gwaith â thâl i fyfyrwyr lleol a oedd yn astudio cyrsiau adeiladu llawn amser yn y coleg. Derbyniwyd un ymgeisydd profiad gwaith ar ôl y profiad hwn ac mae bellach yn cael ei gyflogi fel peiriannydd dan hyfforddiant.

Mae'r adeilad 25,000 troedfedd sgwâr hwn o'r radd flaenaf yn darparu swyddfeydd a labordy modern, gydag amrywiaeth o unedau o wahanol faint ar gyfer cwmnïau newydd a busnesau sydd wedi'u hen sefydlu. Bydd y ganolfan yn canolbwyntio ar arloesi yn y sector ynni, digidol a gwyddor bywyd ac yn creu amgylchedd lle gall busnes ffynnu, gellir datblygu cynnyrch ac anogir cydweithio.

Y ganolfan yw'r cyfleuster masnachol cyntaf yng Nghymru sy'n gweithredu'n effeithlon o ran ynni gan ei fod yn cynhyrchu mwy o ynni nag y mae'n ei ddefnyddio.

- Adeilad cwbl drydan heb systemau gwresogi traddodiadol i leihau'r effaith carbon
- Paneli ffotofoltäig yn y ffasâd gan ddarparu ffynhonnell ynni lân
- Gwaddol parhaus fel ased sy'n storio carbon
- Safon 'Rhagorol' BREEAM
- Unedau Swyddfa a Labordy yn cyrraedd o leiaf Lefel 1 o ran Bioddiogelwch



"Mae'r Fargen Ddinesig yn fuddsoddiad uchelgeisiol mewn sectorau arloesi allweddol, a bydd y ganolfan newydd yn rhoi cyfoeth o gyfleoedd i fusnesau newydd a busnesau sydd wedi'u hen sefydlu yn y rhanbarth. Mae darparu adeiladau cynaliadwy sy'n addas i'r dyfodol yn hanfodol – felly mae'r cyfle i ddarparu'r Ganolfan Dechnoleg, adeilad sy'n effeithlon o ran ynni, wedi bod yn fraint. Yn ogystal â chael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd, rydym yn edrych ymlaen at yr effaith gadarnhaol y bydd yn ei chael ar y busnesau sy'n gweithio yn y ganolfan hefyd."

**Rob Williams**
*Cyfarwyddwr Ardal*
*Morgan Sindall Construction*

**Gellir ailgylchu 92% o adeiladwaith yr adeilad**

**Cymhareb perfformiad ynni o 0.998 - gwelliant o 281% mewn rheoliadau adeiladu**

**Cynnydd net o 486% ar fioamrywiaeth yn seiliedig ar ardal drwy gynefinoedd gwell habitats**

# Ardal Forol Doc Penfro



Ynni, a Gweithgynhyrchu Clyfar

| | |
|---|---|
| **£60.5m** | **Buddsoddiad** |
| **£28.0m** | Y Fargen Ddinesig |
| **£16.4m** | Cyhoeddus |
| **£16.1m** | Preifat |

Bydd Ardal Forol Doc Penfro yn creu canolfan gynhyrchu, profi a lleoli o safon fyd-eang ym maes ynni a pheirianneg forol, a fydd yn darparu'r cymorth a'r seilwaith sydd eu hangen er mwyn i economi carbon isel Cymru dyfu ymhellach. Mae'r prosiect yn ehangu ar gyfleusterau sefydledig a chronfa sgiliau helaeth y rhanbarth, gan sicrhau eu bod yn gweithredu mewn modd mor effeithlon â phosibl a chynyddu'r cyfleoedd i arloesi, a fydd yn helpu i leihau costau cynhyrchu ynni morol.

Wrth ganolbwyntio ar dwf y diwydiant cynhyrchu ynni di-garbon, mae'r prosiect yn cynnwys safleoedd profi pwrpasol ar gamau cynnar ac ar raddfa fasnachol, canolfan arloesi CATAPULT, a seilwaith porthladd â ffocws ar ddiwydiant i sicrhau bod datblygwyr yn gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd cost eu technoleg arloesol a'r modd y caiff ei gosod ar draws pedwar prif brosiect:

1. Seilwaith Doc Penfro
2. Ardal Profi Ynni'r Môr
3. Canolfan Ragoriaeth Peirianneg Ynni Morol
4. Parth Arddangos Sir Benfro

## Diweddariadau Allweddol:

### Seilwaith Doc Penfro

- Cafodd Porthladd Aberdaugleddau ei nodi gan Ganolfan Ragoriaeth Gwynt Arnofiol ar y Môr ORE Catapult fel un o'r 10 Porthladd gorau yn y DU sydd â'r potensial i gefnogi masnacheiddio Gwynt Arnofiol ar y Môr.
- Gwnaeth Seilwaith Doc Penfro gais am Drwydded Forol a dyfarnwyd caniatâd cynllunio llawn ar gyfer y prosiect gan Gyngor Sir Penfro. Derbyniwyd hefyd Ganiatâd Adeilad Rhestredig gan CADW ar gyfer y Doc Sych a'r Llithrfeydd.
- Sicrhaodd R&M Williams y contract adeiladu i adnewyddu Rhandai'r Awyrendai ym Mhorthladd Penfro a dechreuodd y gwaith ym mis Tachwedd 2021 i greu swyddfeydd a gweithdai ysgafn yn yr adeiladau hanesyddol hyn.
- Sicrhawyd £1.1m o gyllid ychwanegol gan WEFO.
- Lluniwyd llyfryn i hyrwyddo'r cyfleusterau a helpu i ddenu tenantiaid unwaith y bydd gwaith adnewyddu ar Randai'r Awyrendai wedi'i gwblhau.

### Ardal Profi Ynni'r Môr

- Sefydlodd Ynni Morol Cymru Celtic Sea Developer Alliance a oedd yn cynnwys 15 o ddatblygwyr gwynt arnofiol gyda phrosiectau yn y Môr Celtaidd.
- Sicrhaodd ei phartner cyntaf drwy gydweithio â Phrifysgol Abertawe i brofi dull defnyddio ac adalw ar gyfer ffrâm gan ddefnyddio silindr awyrgludo. Cafodd y ddyfais ei hadfer yn llwyddiannus o'r safle prawf.
- Sicrhau Trwydded Forol a chontractiodd ymgynghorydd amgylcheddol yn ddiweddarach i gynnal adolygiad i ehangu'r gweithgareddau y gellid eu gwneud ar y safle. Mae hwn wedi'i gyflwyno i'r cyrff cynllunio ac mae'n aros am gymeradwyaeth.
- Cwblhaodd ei hasesiad o adnoddau llanw, a'i phrydlesi Ystâd y Goron ac mae wrthi'n caffael cymorth amrywio caniatâd ar gyfer ei safleoedd dŵr agored er mwyn parhau i ddiwallu anghenion hirdymor datblygwyr.
- Ym mis Ionawr, defnyddiodd Ardal Profi Ynni'r Môr declyn profi tyrfedd SELKIE a ddatblygwyd gan Brifysgol Abertawe a chafodd ei godi ym mis Chwefror.

# Ardal Forol Doc Penfro



## Canolfan Ragoriaeth a Pheirianneg Ynni Morol

- Dyfarnwyd £100k o gyllid i Brifysgol Abertawe gan y Cyngor Ymchwil Peirianneg a'r Gwyddorau Ffisegol yn seiliedig ar brosiect cyfalaf Canolfan Ragoriaeth a Pheirianneg Ynni Morol i brynu ased prawf gwerth £150k a ddefnyddir i gefnogi prosiect ynni mWave Bomboras.
- Llofnodi prydles gyda Chyngor Sir Penfro i ymgymryd â'r uned sy'n weithdy yng Nghanolfan Arloesedd y Bont, ar gyfer storio offer technegol a gweithgareddau peirianneg ysgafn.
- Mae pob prifysgol wedi ymrwymo i gytundeb cydweithio ac mae llawer o brosiectau ar y gweill neu yng nghamau olaf y broses o gael cymeradwyaeth.
- Llofnodwyd Llythyr Amrywio Safonol y Ganolfan Ragoriaeth Peirianneg Ynni Morol gan yr holl bartneriaid sy'n golygu y gellir manteisio i'r eithaf ar fuddion y grant.
- Llofnododd Ardal Profi Ynni'r Môr a Chanolfan Ragoriaeth Peirianneg Ynni Morol gytundeb angori ar gyfer defnyddio bwiau.

## Parth Arddangos Sir Benfro

- Yn Chwarter 2 gwnaed cyhoeddiadau gan y Grid Cenedlaethol ESO ac OFGEM ynghylch sut y bydd angen adeiladu rhwydweithiau ynni ar y môr yn y dyfodol ar y cyd a sut y gellid eu hariannu drwy fuddsoddiad rhagweledol.
- Roedd yr holl gymeradwyaethau gan drydydd partïon a chytundebau cyd-ariannu ar waith i fwrw ymlaen.
- Cyrhaeddodd tyrbinau cerrynt llanw Three Tocardo yn Noc Penfro er mwyn eu gosod i ddyfais cerrynt llanw forol QED.
- Tîm Celtic Sea Power wedi cynyddu i 5 yn swyddfa Doc Penfro.
- Cysyniad o ddatblygiad Is-orsaf Alltraeth Aml-gysylltiad sy'n gallu lletya prosiectau cynhyrchu yn cyd-fynd yn dda â'r meddylfryd o amgylch Adolygiad Rhwydwaith Trosglwyddo'r Môr a diwygiadau rheoleiddiol OFGEM i ddarparu gwynt arnofiol yn y Môr Celtaidd.
- Ymgysylltu cadarnhaol parhaus â rhanddeiliaid allweddol a defnyddwyr terfynol.
- Dylunio Cysyniad Technegol a phecynnau gwaith amgylcheddol ar y gweill.

Port of Milford Haven | CATAPULT Offshore Renewable Energy | HWB MOROL DOC PENFRO / PEMBROKE DOCK MARINE | MARINE ENERGY WALES / YNNI MOROL CYMRU | Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop / European Regional Development Fund

Mae'r prosiect yma yn cael ei ariannu'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru.


**£343.4m**
Cyfraniad at GYC Rhanbarthol

**1,000mw** Cyfraniad at Dargedau Datgarboneiddio

**1,881**
Swyddi a Grewyd

**60,600 m.sg**
Creu Seilwaith Ffisegol

# Strwythur Llywodraethu




## Bwrdd Gweithredu Bargeinion Dinesig a Thwf Cymru

Mae hwn yn Fwrdd ar y cyd rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am roi sicrwydd a chyngor i'r Cyd-gadeiryddion ynghylch materion strategol a gweithredol, rhyddhau cyllid i'r Portffolio, goruchwylio a monitro prosiectau, a threfniadau llywodraethu a sicrwydd effeithiol.

## Cyd-bwyllgor

Y Cadeirydd, y Cynghorydd Rob Stewart
Arweinydd Cyngor Abertawe

Mae'r Cyd-bwyllgor yn cynnwys pedwar Arweinydd yr Awdurdodau Lleol rhanbarthol, yn ogystal ag uwch-gynrychiolwyr o bob un o'r wyth prif sefydliad partner, ac mae'n dal Bwrdd y Rhaglen (Portffolio) a'r Swyddfa Rheoli Portffolio i gyfrif ac yn gyfrifol drwyddi draw am graffu a chymeradwyo.

## Bwrdd Strategaeth Economaidd

Cadeirydd, Chris Foxall

This is a private sector advisory body which acts as the voice of business. The ESB provides strategic direction for the City Deal through advice to the Joint Committee on matters relating to the City Region.

## Bwrdd y Rhaglen (Portffolio)

Cadeirydd, Wendy Walters
Prif Weithredwr, Cyngor Sir Caerfyrddin

Bydd Bwrdd y Rhaglen, sy'n gyfrifol am oruchwylio gweithrediadau'r Fargen Ddinesig, yn adolygu newidiadau i achosion busnes a datblygiadau i'r portffolio wrth iddo fynd yn ei flaen. Mae'n cynnwys pennaeth neu uwch-gynrychiolydd pob un o'r wyth sefydliad partner.

## Cyd-bwyllgor Craffu

Cadeirydd, y Cynghorydd Rob James
Aelod Etholedig o Gyngor Sir Caerfyrddin

Mae'n cynghori, yn herio ac yn cefnogi'r Cyd-bwyllgor, ac mae'n cynnwys tri aelod etholedig o bob un o'r pedwar awdurdod lleol.

# Tîm y Swyddfa Rheoli'r Portffolio a Swyddogaethau Statudol

Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn gyfrifol am weinyddu'r Portffolio o ddydd i ddydd ac mae mewn cyswllt rheolaidd â thimau ehangach y Fargen Ddinesig ac aelodau'r bwrdd.



**Jonathan Burnes**
*Cyfarwyddwr Portffolio*



**Peter Austin**
*Rheolwr Ymgysylltu â Busnesau*



**Ian Williams**
*Rheolwr Datblygu Portffolio*



**Phil Ryder**
*Rheolwr y Swyddfa Rheoli Portffolio*



**Heidi Harries**
*Swyddog Cyfathrebu a Marchnata*



**Richard Arnold**
*Rheolwr Cyllid*

Mae Y Rheolwr Cyllid sy'n gyfrifol i'r Swyddog Adran 151



**Amanda Burns**
*Uwch-swyddog Cymorth Portffolio*



**Sarah Vaughan**
*Cynorthwyydd y Swyddfa Portffolio*

Cefnogir Bargen Ddinesig Bae Abertawe hefyd gan Swyddog Adran 151 Cyngor Sir Caerfyrddin a Swyddog Monitro Cyngor Abertawe fel rhan o swyddogaethau statudol y portffolio.

## Chris Moore

*Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Cyngor Sir Caerfyrddin a Swyddog Adran 151 Bargen Ddinesig Bae Abertawe*

Mae Chris yn gyfrifol am weinyddu busnes y Cyd-bwyllgor o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac mae'n gyffredinol gyfrifol am weinyddiaeth ariannol y Fargen Ddinesig.

## Tracey Meredith


*Swyddog Monitro Cyngor Sir Abertawe a Swyddog Monitro Bargen Ddinesig Bae Abertawe*

Mae Tracey yn gyfrifol am sicrhau llywodraethu da a chynnal y safonau moesegol uchaf, gan sicrhau cyfreithlondeb trefniadau a sicrhau y cydymffurfir â Chytundeb y Cyd-bwyllgor.


# Rheoli Risg y Portffolio

Drwy gydol 2021-2022 mae BDBA wedi nodi risgiau newydd gan gynyddu'r cyfanswm o 25 ar ddechrae i 31 ar diwedd y flwyddyn ar draws y portffolio, sy'n adlewyrchu'r ffaith bod y Portffolio yn cael ei gyflawni'n llawn. Rhoddwyd llawer o fesurau lliniaru ar waith hefyd sydd wedi gostwng sgoriau risg.

## Risgiau wedi'u Lliniaru Ebrill 2021




## Risgiau wedi'u Lliniaru Mawrth 2022





Ar hyn o bryd, dyma'r pedwar risg coch ar gyfer y portffolio:

1. Nid yw cyfraniadau cyllido o'r sector preifat wedi'u gwireddu yn unol ag amcanestyniadau'r achos busnes
2. Cynnydd yng nghostau adeiladu
3. Diweddariad yn 2021 gan Lywodraeth Cymru o ran Nodyn Cyngor Technegol 15: datblygu, risg llifogydd ac erydu arfordirol a mapiau cysylltiedig
4. Llithriad o ran cyflwyno rhaglenni / prosiectau yn unol â cherrig milltir pwysig

Mae'r asesiad o effaith COVID-19 yn dangos bod y risgiau sy'n gysylltiedig â COVID wedi gostwng yn sylweddol drwy gydol y flwyddyn, yn gysylltiedig yn bennaf â'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn a rheolaeth effeithiol o'r Portffolio, Rhaglenni a Phrosiectau i sicrhau bod yr holl risgiau'n cael eu lliniaru cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol.

## Risgiau Coch COVID a Nodwyd gan y Meini Prawf Effaith




Datblygwyd asesiad o'r Effaith ar Adeiladu yn Chwarter 3 i ddeall a rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â chostau adeiladu cynyddol ac argaeledd deunyddiau ac adnoddau. Mae'r tri maes risg allweddol yn cynnwys:

- Goblygiadau amser posibl
- Cynnydd posibl yng nghostau'r prosiect
- Newidiadau Posibl i'r Cwmpas

# Sicrwydd ac Archwilio

## Adolygiadau Gateway


Mae Portffolio a phrosiectau Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn destun Adolygiadau Gateway Swyddfa Masnach y Llywodraeth, a drefnir gan Ganolfan Sicrwydd Integredig Llywodraeth Cymru, i sicrhau bod y portffolio a'r prosiectau a rhaglenni cysylltiedig yn symud ymlaen yn llwyddiannus ac yn cael eu cyflawni'n gyffredinol.

Mae Bargen Ddinesig Bae Abertawe wedi cynnal adolygiadau Gateway o'r ddau bortffolio ac o'r wyth prosiect/rhaglen ers mis Tachwedd 2019, gyda Sgoriau Asesu Hyder Cyflawni Adolygiad Gateway fel a ganlyn:

| Portffolio/Rhaglen/Prosiect | Cam | Dyddiad Adolygu Diweddaraf | Sgôr Asesu Hyder Cyflawni | Un nesaf sydd wedi'i gynllunio |
|---|---|---|---|---|
| Portffolio | 0 | Gorffennaf 2021 | | Gorffennaf 2022 |
| Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer | PAR (2/3) | Mehefin 2020 | | Gorffennaf 2022 |
| Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel | PAR (2/3) | Mehefin 2020 | | Medi 2022 |
| Pentre Awel | PAR (2/3) | Medi 2020 | | Hydref 2022 |
| Seilwaith Digidol | 0 | Hydref 2020 | | Medi 2022 |
| Ardal Forol Doc Penfro | PAR (2/3) | Chwefror 2020 | | Rhagfyr 2022 |
| Yr Egin | 5 (Cam 1) | Tachwedd 2021 | | Rhagfyr 2022 |
| Glannau ac Ardal Ddigidol Abertawe | 0/PAR | - | | Medi 2022 |
| Sgiliau a Thalentau | 0 | Mehefin 2021 | | Tachwedd 2022 |
| Campysau | PAR (2/3) | Awst 2021 | | Mai 2023 |


## Argymhellion Adolygiad Gateway 0 o'r Portffolio 2021

Rhoddwyd sgôr Ambr/Gwyrdd yn adolygiad sicrwydd Gateaway 2021 ar gyfer y Portffolio, a chafwyd 4 argymhelliad. Mae 3 o'r argymhellion hyn wedi'u rhoi ar waith ac mae 1 yn dal i gael ei gwblhau ar hyn o bryd. Yr argymhelliad sy'n weddill yw diweddaru Cylch Gwaith ac aelodaeth Bwrdd y Portffolio, a fydd yn cael ei gwblhau yn 2022/23.




## Argymhellion Archwilio Mewnol 2021

Rhoddodd Archwiliad Mewnol 2021 sgôr Sylweddol i'r Portffolio, sy'n golygu bod gan y Portffolio siawns sylweddol o lwyddiant cyffredinol. Gwnaed 5 argymhelliad ac mae 4 wedi'u gweithredu'n llwyddiannus. Yr argymhelliad sy'n weddill yw i un partner Bargen Ddinesig Bae Abertawe lofnodi a dychwelyd llythyr ymgysylltu am ei chyfraniadau at gyflawni'r Portffolio.




*Mae adroddiadau ar gael ar wefan Bargen Ddinesig Bae Abertawe o dan yr adran Llywodraethu a Chyfarfodydd*

# Crynodeb Ariannol

Yn ystod y cyfnod o heriau pandemig COVID-19 na welwyd eu tebyg o'r blaen, ac wrth symud i gyfnod o adferiad economaidd, mae'r holl randdeiliaid rhanbarthol a'r ddwy lywodraeth yn parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i Fargen Ddinesig Bae Abertawe. Bydd eu hymrwymiad i sicrhau buddsoddiad a chyflawni amcanion y Fargen Ddinesig yn helpu i hybu twf economaidd a chreu swyddi o ansawdd uchel ledled y rhanbarth.

Adlewyrchir y cynnydd drwy'r achos busnes terfynol yn cael ei gymeradwyo yn 2021, ac mae pob un o'r naw achos busnes bellach wedi'u cymeradwyo ac yn cael eu cyflawni. Ym mlwyddyn ariannol 2021/22, mae Bargen Ddinesig Bae Abertawe wedi buddsoddi £30 miliwn o gyllid y sector cyhoeddus a'r sector preifat mewn gwaith cynllunio, caffael, adeiladu a gweithredu ar draws llawer o brosiectau a rhaglenni'r Portffolio.

Cawsom hefyd y llythyr dyfarnu cyllid yn 2021/22, i ryddhau'r pedwerydd swm blynyddol o arian y Fargen Ddinesig, sy'n golygu bod cyfanswm o £77m wedi'i dynnu i lawr ers y dechrau gyda £24m wedi'i ddosbarthu i raglenni a phrosiectau. Roedd y cyllid diweddaraf a dderbyniwyd ar gyfer y Fargen Ddinesig yn cynnwys y bwriad i gynnig mwy o grant Llywodraeth y DU ar y dechrau a fydd bellach yn cael ei ddyfarnu dros gyfnod o ddeng mlynedd, yn hytrach na'r cyfnod gwreiddiol o bymtheg mlynedd.

Dangosir bod y sefyllfa fuddsoddi amcangyfrifedig gyffredinol yn £1.239b dros gylch bywyd 15 mlynedd y portffolio.


Arena Abertawe a Bae Copr

# Crynodeb Ariannol

Ar hyn o bryd amcangyfrifir bod angen refeniw o £60m (5%) i gyflawni prosiectau'r Fargen Ddinesig. Cefnogir hyn drwy ddefnyddio cyfarwyddeb derbyniadau cyfalaf hyblyg yr Awdurdodau Lleol, ac ymrwymiad amgen gan y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Dros oes y portffolio disgwylir i'r gwaith ymgysylltu â'r sector preifat gynyddu a datblygu wrth i brosiectau sefydlu eu hunain a chael eu cwblhau.

Oherwydd sawl ffactor macro-economaidd dros y tair blynedd diwethaf (gan gynnwys cyfyngiadau o ran adnoddau oherwydd pandemig COVID-19, oedi yn y broses gaffael o ganlyniad i bwysau costau adeiladu, oedi wrth ddatblygu a chymeradwyo achosion busnes ac oedi wrth recriwtio), mae'r portffolio yn profi oedi cyn cyflwyno nifer o raglenni a phrosiectau. Nid yw hyn wedi cynyddu'r amserlen gyflawni gyffredinol ar gyfer y portffolio.

Ar hyn o bryd dim ond £236m sy'n cael ei ragweld o'r grantiau dyfarnwyd ef gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, sef cyfanswm o £241m, gyda'r balans o £5m yn cael ei ystyried ymhellach ar gyfer buddsoddi.

## Proffil Darogan Buddsoddiad Blynyddol

| Cydran Fuddsoddi | Gwirebau Cronnus (20fed Maw 2017 i 31ain Maw 2021) | Rhagolwg | Rhagolwg | Rhagolwg | Rhagolwg | Rhagolwg | Rhagolwg |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Blwyddyn 4 2021 - 2 | Blwyddyn 5 2022 - 2023 | Blwyddyn 6 2023 - 24 | Blwyddyn 7 2024 - 25 | Blwyddyn 8 2025 - 26 | Blwyddyn 9 2026 - 27 |
| **Cyfalaf / Refeniw** | (£m) | (£m) | (£m) | (£m) | (£m) | (£m) | (£m) |
| Buddsoddiad Cyfalaf | 89.20 | 29.55 | 152.47 | 166.79 | 180.20 | 191.42 | 206.01 |
| Buddsoddiad Refeniw | 5.64 | 0.77 | 11.13 | 14.70 | 12.98 | 11.11 | 0.85 |
| **Cyfanswm** | **94.84** | **30.32** | **163.60** | **181.49** | **193.18** | **202.54** | **206.87** |
| **Cyllid** | | | | | | | |
| Buddsoddiad y Fargen Ddinesig | 11.20 | 20.90 | 53.04 | 35.17 | 26.02 | 23.77 | 24.93 |
| Buddsoddiad y Sector Cyhoeddus | 71.31 | 10.65 | 51.96 | 61.04 | 39.13 | 56.85 | 66.32 |
| Buddsoddiad y Sector Preifat | 3.60 | 0.55 | 32.98 | 48.72 | 123.89 | 132.69 | 137.43 |
| **Cyfanswm** | **86.11** | **32.10** | **137.98** | **144.93** | **189.03** | **213.31** | **228.67** |

| Cydran Fuddsoddi | Rhagolwg | Rhagolwg | Rhagolwg | Rhagolwg | Rhagolwg | Rhagolwg | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Blwyddyn 10 2027 - 28 | Blwyddyn 11 2028 - 29 | Blwyddyn 12 2029 - 30 | Blwyddyn 13 2030 - 31 | Blwyddyn 14 2031 - 32 | Blwyddyn 15 2032 - 33 | |
| **Cyfalaf / Refeniw** | (£m) | (£m) | (£m) | (£m) | (£m) | (£m) | |
| Buddsoddiad Cyfalaf | 163.43 | - | - | - | - | - | 1,179.07 |
| Buddsoddiad Refeniw | 0.42 | 0.44 | 0.45 | 0.46 | 0.47 | 0.48 | 59.91 |
| **Cyfanswm** | **163.86** | **0.44** | **0.45** | **0.46** | **0.47** | **0.48** | **1,238.97** |
| **Buddsoddiad Cydrannau** | | | | | | | |
| Buddsoddiad y Fargen Ddinesig | 23.15 | 4.13 | 3.35 | 3.35 | 3.35 | 3.35 | 235.70 |
| Buddsoddiad y Sector Cyhoeddus | 16.47 | - | - | - | - | - | 373.73 |
| Buddsoddiad y Sector Preifat | 147.39 | 0.44 | 0.45 | 0.46 | 0.47 | 0.48 | 629.55 |
| **Cyfanswm** | **187.00** | **4.56** | **3.80** | **3.81** | **3.82** | **3.83** | **1,238.97** |

# Marchnata a Chyfathrebu

Penodwyd Swyddog Cyfathrebu a Marchnata penodedig ar gyfer Bargen Ddinesig Bae Abertawe ym mis Medi 2021. Yn y rôl hon, mae Heidi Harries yn gweithio'n agos gyda'r Rheolwr Ymgysylltu â Busnesau a thimau Prosiectau/Rhaglenni i oruchwylio Cynllun Cyfathrebu a Marchnata'r Portffolio, sy'n cynnwys gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r cyfryngau, cyfryngau cymdeithasol, cynnwys y we, cyfathrebu mewnol, marchnata a digwyddiadau.

## Cynllun Cyfathrebu a Marchnata'r Portfforlio

Diweddarwyd Cynllun Cyfathrebu a Marchnata Bargen Ddinesig Bae Abertawe ym mis Ionawr 2022 i gydlynu cyfathrebu ar draws grwpiau llywodraethu Bargen Ddinesig Bae Abertawe, sefydliadau partner a chynulleidfaoedd ehangach. Mae'r cynllun yn amlinellu gwybodaeth bwysig, amserlenni, protocolau, offer a gweithgareddau sy'n anelu at fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd sy'n deillio o gyfathrebu.

## Sylw yn y cyfryngau
## Y Cyfryngau Digidol a Phrint

Sicrhawyd 194 o gyfeiriadau cadarnhaol at Fargen Ddinesig Bae Abertawe yn y cyfryngau digidol a phrint ym mlwyddyn ariannol 2021/22.

Mae Wales Online, y Western Mail, ITV Wales, y South Wales Evening Post, Business News Wales, Wales Business Insider, Business Live, Wales 247, the Llanelli Star, The Carmarthen Journal, the Western Telegraph, The South Wales Guardian, The National a Nation Cymru wedi cynnwys erthyglau am Fargen Ddinesig Bae Abertawe. Mae'r cyfryngau arbenigol yn cynnwys World Cargo News, Opera News, Premier Construction, FE News a Construction Enquirer.

@SBCityDeal

bargenddinesigbaeabertawe.cymru

BDBA@sirgar.gov.uk

## Y Cyfryngau Cymdeithasol

Dyma'r gweithgarwch o ran cyfrifon cyfryngau cymdeithasol a phostiadau cyfryngau cymdeithasol dwyieithog, gan dagio partneriaid a sefydliadau perthnasol rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022:

| | Tagio | Cyrhaeddiad cyfunol y postiadau* | Dilynwyr |
|---|---|---|---|
| **Facebook** | @BargenDinesigBA | 76.5 | 896 |
| **Twitter** | @BargenDinesigBA | 691.6k | 1552 |
| **LinkedIn** | | 693 | 453 |

*Nifer y bobl a oedd wedi gweld postiadau, ymgysylltu â phostiadau, clicio ar bostiadau, rhannu postiadau, rhoi sylw iddynt neu eu hoffi

## Ymweliadau gan Weinidogion

Cynhaliwyd sawl ymweliad gan Weinidogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn ystod 2021-2022 er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau, i gymeradwyo achos busnes neu i fynychu digwyddiad agoriadol neu ddigwyddiad carreg filltir. Gwahoddwyd y Wasg i fod yn bresennol, ac roedd y BBC ac ITV yn ffilmio ar gyfer eitemau ar newyddion Cymru mewn rhai achosion, a chyhoeddwyd datganiadau i'r wasg ar ôl yr ymweliadau.



Gweinidog Llywodraeth y DU, David T C Davies gyda Yr Athro Paul Boyle, Is-Ganghellor, Prifysgol Abertawe

# Marchnata a Chyfathrebu

## Digwyddiadau

Yn sgil codi cyfyngiadau Covid y flwyddyn ariannol hon, mae nifer y digwyddiadau byw y mae Bargen Ddinesig Bae Abertawe wedi'u mynychu wedi cynyddu.

1. Y Digwyddiad Arddangos - Cynhaliwyd hwn ar 3 Mawrth 2022 i ddathlu bod yr holl brosiectau a rhaglenni wedi'u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Dyma un o'r digwyddiadau byw cyntaf a gynhaliwyd ac roedd yr adborth o'r digwyddiad yn gadarnhaol iawn. Mae rhagor o fanylion wedi'u cynnwys yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.
2. Digwyddiad 4theRegion – Cyflwynodd ac arddangosodd y tîm yn y digwyddiad ar 17 Mawrth 2022 a chroesawyd tua 2,500 o bobl a 125 o arddangoswyr. Hwn oedd y digwyddiad cyntaf i gael ei gynnal yn Arena Abertawe.

"Diolch yn fawr iawn i bawb a oedd wedi dod, arddangos neu siarad yn y gynhadledd eleni. Roedd yn ddiwrnod anhygoel, yn arddangos ac yn dathlu'r holl bobl, prosiectau, busnesau a sefydliadau sy'n rhan annatod o Abertawe – a chafwyd cyhoeddiadau cyffrous iawn am gynlluniau ar gyfer y ddinas yn y dyfodol."

**Dawn Lyle**
*Sylfaenydd a Chadeirydd*
*4theRegion*

## Gwefan y Fargen Ddinesig

Mae gwefan ddwyieithog Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn cael ei diweddaru'n rheolaidd i gynnwys y newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf.

## Brandio

Diweddarwyd y Canllawiau Brand yn 2021-2022 ac maent i'w gweld yng Nghynllun Cyfathrebu a Marchnata'r Portffolio gyda manylion ar gyfer hyrwyddo digidol a ffisegol, gan gynnwys safleoedd adeiladu a seilwaith y Fargen Ddinesig.

## Cyfathrebu â busnesau rhanbarthol

Caiff gwybodaeth ei rhannu'n rheolaidd â busnesau, sefydliadau a rhwydweithiau i'w chynnwys yn eu sianeli cyfathrebu megis cylchlythyrau a digwyddiadau. Gan gynnwys grwpiau fel ardaloedd Gwella Busnes Rhanbarthol, clybiau busnes a siambrau masnach, yn ogystal â sefydliadau gan gynnwys 4theRegion a Thimau Ymgysylltu Rhanbarthol.

Mae cyhoeddiadau'r Fargen Ddinesig hefyd yn cynnwys bwletinau e-newyddion a anfonwyd gan Business News Wales a Wales Business Insider, sy'n cyrraedd miloedd lawer o fusnesau ledled Dinas-ranbarth Bae Abertawe a thu hwnt.

## Gweithio mewn partneriaeth

Mae gwaith wedi parhau i sefydlu rhwydwaith gyda rhanddeiliaid allweddol ar gyfer marchnata a chyfathrebu, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a Bargeinion Dinas a Thwf eraill.

Sefydlwyd is-grwpiau Marchnata a Chyfathrebu ar gyfer rhaglen Ardal Forol Doc Penfro, a chynhelir cyfarfodydd bob mis. Bydd y cyfarfodydd yn helpu i bennu amserlenni ar gyfer gweithgareddau cyfathrebu mewn perthynas â cherrig milltir allweddol.

# Ymgysylltu â Busnesau

Wrth i'r portffolio symud i'r cam cyflawni, mae'r rhaglenni a'r prosiectau wedi bod yn darparu mwy o gyfleoedd i fusnesau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol gyda chymorth gan ein Bwrdd Strategaeth Economaidd drwy gyngor, eiriolaeth a chyfeirio.

Mae'r Egin yn parhau i fod yn llwyddiannus, gan letya 18 o denantiaid â'r prif denant, S4C, yr amcangyfrifir bod ei phresenoldeb yn Sir Gaerfyrddin werth dros £18m y flwyddyn i'r economi leol ac yn darparu dros 100 o swyddi.

Mae ardal newydd Bae Copr Abertawe yn cynnwys Arena Abertawe wedi bod o fudd i lawer o fusnesau yn yr ardal leol drwy ddenu mwy o ymwelwyr. Mae enghreifftiau'n cynnwys The Anchor a'r bwyty Gigi Gao yn Ardal y Glannau. Mae caffi/bwyty newydd ger yr Arena, The Green Room, hefyd ar agor am fusnes erbyn hyn ac mae wedi galluogi ei weithredwyr yn Abertawe i ehangu eu portffolio o fusnesau, gan greu hefyd swyddi i bobl leol.

Mae nifer o fusnesau lleol eraill hefyd wedi derbyn unedau yn natblygiad Bae Copr yn Cupid Way sy'n cysylltu canol y ddinas â'r Arena. Mae'r rhain yn cynnwys Coaltown Coffee, Frozziyo Frozen Yoghurt, KoKoDoo chicken ac Imperial Candy hoeddiadau am brydlesu yn ystod y flwyddyn.

Mae busnesau eraill wedi sôn am eu penderfyniad i fuddsoddi yng nghanol dinas Abertawe oherwydd cynlluniau fel Bae Copr. Mae'r rhain yn cynnwys Cwtsh Hostel, gyda'r perchennog Llyr Roberts yn dweud bod yr arena, ynghyd ag adfywio arall yn y ddinas, yn gwneud Abertawe yn lle deniadol i'r sector preifat.

Fel rhan o brosiect Ardal Forol Doc Penfro, penodwyd y contractwr R&M Williams i ymgymryd â cham cyntaf y gwaith o adnewyddu pedwar Rhandy'r Awyrendai rhestredig Gradd II ym Mhorthladd Penfro. Bydd hyn yn creu gweithfannau modern a gweithdy.

Mae'r gwaith sylfaen sy'n cael ei gyflawni gan Ardal Forol Doc Penfro wedi codi proffil cadwyn gyflenwi'r rhanbarth sy'n ennill contractau i ddiwallu anghenion datblygwyr ynni'r môr.


Penodwyd Bouygues UK yn gontractwr cymeradwy ar gyfer y prosiect Pentre Awel a 71/72 Ffordd y Brenin. Trefnwyd dau ddigwyddiad Cwrdd â'r Prynwr gan Bouygues UK mewn partneriaeth â Busnes Cymru a chleientiaid y Cyngor Sir.

## 71/72 Ffordd y Brenin, cynhaliwyd ar-lein, 16 Rhagfyr

Daeth 45 o gwmnïau i'r digwyddiad ar-lein i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd gan gynnwys dur strwythurol, gwydr, celfi stryd, marciau ffordd, saer celfi arbenigol, glanhau, diogelu rhag tân a thirlunio. Cafodd y rhai a oedd yn bresennol gyfle i dendro'r pecynnau perthnasol a dyfarnwyd contractau yn dilyn hynny.

## Pentre Awel, cynhaliwyd ym harc y Scarlets, 30 Mawrth

Daeth 141 o fusnesau lleol i'r digwyddiad byw, a oedd yn hyrwyddo'r cyfleoedd ym Mharth y datblygiad. Roedd dros 50 o gyfleoedd contract ar gael ar gyfer y gadwyn gyflenwi leol. Ymhlith y rhai a oedd yn bresennol, roedd 22% o'r busnesau o Lanelli, 36% o Sir Gaerfyrddin a 57% o ranbarth y Fargen Ddinesig.



Peter Austin, Rheolwr Ymgysylltu â Busnes y digwyddiad y Prynwr

# Y Digwyddiad Arddangos




Y Cynghorydd Rob Stewart yn y Digwyddiad Arddangos

**185** attendees

| | |
|---|---|
| **50%** | Sector Preifat |
| **21%** | Sector Addysg |
| **29%** | Sector cyhoeddus neu sector arall sy'n gysylltiedig â phrosiectau |

Cynhaliodd Bargen Ddinesig Bae Abertawe ddigwyddiad Arddangos ym mis Mawrth 2022 i wneud y canlynol:

- Dathlu bod pob un o'r 9 prosiect a rhaglen wedi'u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a bod y portffolio bellach yn cael ei gyflawni'n llawn.
- Rhoi cipolwg ar y portffolio gan roi pwyslais ar y cyfleoedd i fusnesau a rhanddeiliaid allweddol eraill gael gwybodaeth a chael eu cynnwys yn ystod y broses gyflawni.
- Caniatáu i bob gwestai rwydweithio a thrafod eu rolau, eu sefydliadau a'u cyfleoedd yn y dyfodol.

**Roedd adborth o'r digwyddiad yn cynnwys:**

- Cyfradd ymateb o **19%**
- Sgôr o **8.3/10** i'r digwyddiad
- **47%** am gael gwybodaeth am y prosiectau
- Sgôr o **4.4/5** am y wybodaeth ddiweddaraf am y prosiectau

Roedd amserlen y digwyddiad yn cynnwys:

- **Rhwydweithio:** Roedd pob un o'r naw prosiect a rhaglen wedi'u gosod yn y brif ystafell fel dull marchnad lle'r oedd y rhai a oedd yn bresennol yn gallu ymweld â phob stondin i ymgysylltu a gofyn cwestiynau. Roedd cydweithwyr Bargen Ddinesig Bae Abertawe ar gael yn ystod y sesiynau rhwydweithio adeg cofrestru, egwyliau ac amser cinio.
- **Prif siaradwyr:** Y Cynghorydd Emlyn Dole, y Cynghorydd Rob Stewart, y Gweinidog David TC Davies, y Gweinidog Rebecca Evans a Chris Foxall.
- **Y wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect/rhaglen:** Bu Jon Burnes yn cyflwyno'r sesiynau gyda chynrychiolydd o bob prosiect a rhaglen yn rhoi trosolwg pum munud.
- **Sesiynau trafod:** Tair sesiwn drafod gyfochrog i drafod cyfleoedd ar draws meysydd Sgiliau a Thalentau, Gwerth Cymdeithasol a Gwynt Arnofiol ar y Môr.

> "Roedd yn wych cael bod yn nigwyddiad arddangos Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Mae'n wych cael clywed bod y cyllid bellach wedi'i ddyrannu, ac mae pob un o'r naw prosiect bellach wedi'u cymeradwyo. Rydym yn falch o fod yn rhan o'r prosiectau hyn sy'n ysgogi datblygiad a thwf economaidd."
>
> **Russell Greenslade**
> *Prif Weithredwr*
> *Ardal Gwella Busnes (AGB) Abertawe*

# Y Digwyddiad Arddangos

“Daeth llawer iawn o bobl i ddigwyddiad Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Roedd yn wych clywed am y prosiectau amrywiol ar draws y rhanbarth ac rydym yn edrych ymlaen at y dyfodol.”

**Nick Gorvett**
*Rheolwr Partneriaethau*
*2B Enterprising*



“Roedd mynd i Ddigwyddiad Arddangos y Fargen Ddinesig yn gyfle gwych i glywed am y cynnydd rhagorol sydd wedi’i wneud o ran y fargen hyd yn hyn ac mae’n wych clywed bod yr holl brosiectau bellach wedi’u cymeradwyo. Rwy’n edrych ymlaen at weld y cynlluniau’n cael eu gwireddu a’r twf a’r adfywio a ddaw i’r rhanbarth.”

**Sharon Adams**
*Rheolwr Masnachol*
*Mhorthladd Aberdaugleddau*

Roedd adborth o’r digwyddiad yn cynnwys:

- Sgôr o **4.5/5** am y prif siaradwyr
- Sgôr o **4.2/5** am y cyfleoedd rhwydweithio
- Sgôr o **4.2/5** am y sesiwn drafod
- **100%** am fynd i ddigwyddiad Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn y dyfodol

“Cynhadledd bleserus a llawn gwybodaeth a oedd yn dangos amrywiaeth o brosiectau yn enwedig ynni a pheirianneg gwyrdd Ardal Forol Doc Penfro, Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer a allai fod o fudd mawr wrth gynhyrchu ynni yn y dyfodol a’r Seilwaith Digidol sy’n hanfodol i ddatblygiad technoleg De Cymru.”

**Huw Bala**
*Rheolwr Prosiect*
*Tinopolis*



# Gweithgareddau allweddol ar gyfer Ebrill 2022 - Mawrth 2023

## Chwarter 1
## (Ebrill, Mai a Mehefin 2022)

- **Portffolio:** Papurau briffio ar gyfer Aelodau Etholedig ac Arweinwyr sydd newydd eu penodi.
- **Seilwaith Digidol:**

  o Lobïo ac ymgysylltu â chyflenwyr a'r Llywodraeth.

  o Hwyluso'r gwaith sydd eisoes yn digwydd a'r gwaith sydd wedi'i gynllunio o ran y sector preifat yn gosod ffibr yn rhanbarthol.

  o Dyfeisio rhaglen waith ar gyfer y Genhedlaeth Nesaf ac adnoddau dynol gwledig.
- **Sgiliau a Thalentau:** Derbyn ac adolygu rhagor o geisiadau am brosiectau peilot.
- **HAPS:** Cwblhau'r Fanyleb Dechnegol ar gyfer Monitro a Gwerthuso caffael a dechrau recriwtio ar gyfer staff y prosiect.
- **Ardal Ddigidol Abertawe a'r Glannau:** Cwblhau'r cynllunio a cham 3 RIBA ar gyfer y Matrics Arloesedd wrth ddiweddaru'r Achos Busnes i adlewyrchu hyn a'r cynnydd a wnaed o ran 71/72 Ffordd y Brenin.
- **Yr Egin:** Datblygu methodoleg gyflawni arfaethedig i gyd-fynd yn well ag amgylchedd y sector creadigol ar ôl COVID er mwyn llywio cais am newid i'w gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor.
- **Pentre Awel:** Cais cynllunio Materion a Gedwir yn ôl ar gyfer Parth 1 wedi'i gymeradwyo ym mis Mehefin, dyluniadau cam 2 RIBA ar gyfer Parth 3 wedi'u cwblhau. Fframwaith adrodd ar y Budd Cymunedol wedi'i sefydlu.
- **Campysau:** Lôn Sgeti - Asesiad ecoleg wedi'i gwblhau. Amcangyfrif o'r gost ddiwygiedig wedi'i gwblhau, mae'r broses gaffael ar gyfer y cyfnod dylunio wedi dechrau.
- **Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel:**

  o Canolfan Dechnoleg y Bae - Gosodiadau, ffitiadau a dodrefn yn eu lle.

  o Y Gronfa Datblygu Eiddo wedi'i chyhoeddi a ffurflen Datganiad o Ddiddordeb wedi cael ei rhyddhau.

  o Prosiect seilwaith Cerbydau Trydan Lleol - staff newydd ar waith.
- **Ardal Forol Doc Penfro:**

  o Contractwr wedi'i benodi ar gyfer y llithrfa a'r pontynau gwaith.

  o Dylunio Cysyniad Technegol a phecynnau gwaith amgylcheddol yn parhau yn Parth Arddangos Sir Benfro.



Pentre Awel

# Gweithgareddau allweddol ar gyfer Ebrill 2022 - Mawrth 2023

## Chwarter 2
## (Gorffennaf, Awst, Medi 2022)

- **Portffolio:** Adolygiad sicrwydd portffolio Gateway 0.
- **Seilwaith Digidol:**

  o Recriwtio adnoddau awdurdod lleol ar gyfer ein ffrydiau gwaith gwledig a Rhwydweithiau Diwifr y Genhedlaeth Nesaf.

  o Parhau i ddefnyddio LoraWAN ar draws y rhanbarth gan ddarparu ymarferoldeb i'r Rhyngrwyd Pethau.

  o Gwaith paratoi ar gyfer caffael safle hwb gwerth £12m gan gynnwys cais "Gigahubs" i Lywodraeth y DU am gyllid ychwanegol.

  o Adolygu'r ddarpariaeth band eang Gigabit a ragwelir ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru a gwneud penderfyniadau ar gaffael band eang gwledig cyflym iawn.
- **Sgiliau a Thalentau:** Penodi gweddill yr aelodau o ran y Tîm Prosiect Sgiliau.
- **HAPS:** Cwblhau a lansio'r Gronfa Cymhellion Ariannol.
- **Glannau Abertawe:** Symud ymlaen â gwaith adeiladu ar 71-72 Ffordd y Brenin.
- **Yr Egin:**

  o Cyflwyno cais am newid i'w gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor, gan amlinellu'r aliniad â gofynion y sector creadigol ers i'r Achos Busnes cychwynnol gael ei greu sawl blwyddyn yn ôl

  o Yr Egin - derbyn cymeradwyaeth ar gyfer cais am newid a datblygu gweithgarwch caffael a'r adolygiad Gateway cysylltiedig.
- **Pentre Awel:** Cwblhau dyluniadau cam 4 RIBA ar gyfer Parth 1. Cychwyn ar y gwaith o ran paratoi'r safle.
- **Campysau :**

  o Primary funding agreement signed.

  o Secondary funding agreement issued and signed.
- **Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel:**

  o Canolfan Dechnoleg Bae Abertawe - Trosglwyddo adeiladau i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a sicrhau'r tenantiaid cyntaf.

  o Canolfan Ddiwydiannol Pontio o Garbon De Cymru (SWITCH) - dogfennau cyfreithiol wedi'u llofnodi a'u rhyddhau o ran y tendrau Dylunio ac Adeiladu.

  o Prosiect Ysgogi Hydrogen - Cymeradwyo cytundeb ariannu.

  o Prosiect Monitro Ansawdd Aer (AQMP) - Dadansoddwr data newydd wedi'i recriwtio i ddadansoddi'r data a gasglwyd.
- **Ardal Forol Doc Penfro:**

  o Mae'r gwaith yn symud ymlaen o ran y llithrfa a'r pontynau gwaith.

  o Caffael Asesiad Effaith Amgylcheddol a Dylunio Peirianneg Cyn y Blaen yn Parth Arddangos Sir Benfro.



71/72 Ffordd y Brenin

# Gweithgareddau allweddol ar gyfer Ebrill 2022 - Mawrth 2023

## Chwarter 3
## (Hydref, Tachwedd, Rhagfyr 2022)

- **Seilwaith Digidol:**

  o Symud ymlaen â chaffael safleoedd hwb.

  o Dechrau cyflwyno rhaglen waith ar gyfer adnoddau ein prosiect Gwledig a Rhwydweithiau Diwifr y Genhedlaeth Nesaf, gan gyflymu gweithgareddau mewn Awdurdodau lleol.

  o Gweithgareddau caffael ar gyfer ein prosiect treialu a meinciau profi 5G.
- **Sgiliau a Thalentau:** Digwyddiadau ymgysylltu ag ysgolion ar y gweill ar gyfer tymor yr Hydref ac Ail Adolygiad Gateway yn Hydref 2022. Cynllun Peilot 1af yn symud i'r cam cyflawni. Derbyn ac adolygu rhagor o geisiadau am brosiectau peilot.
- **HAPS:** Cwblhau Cronfa Datblygu'r Gadwyn Gyflenwi.
- **Yr Egin:** Manylion terfynol cam 2 yn barod i'w gyflwyno ddechrau yn Q4.
- **Y Glannau:** Dechrau wrth lunio'r Matrics Arloesedd.
- **Pentre Awel:** Gwaith yn dechrau'n gyfan gwbl ar Barth 1 y safle a chaffael Parth 3.
- **Campysau:** Dechrau cyflwyno Cam 1 ar Safle Treforys. Dyluniadau Terfynol a Chaffael ar gyfer Cam 1 Safle Singleton.
- **SILCG:**

  o Cyfleuster Cynhyrchu Gweithgynhyrchu Uwch (AMPF) - Digwyddiad ymgysylltu cyn y farchnad gyda'r defnyddwyr/gweithredwyr terfynol, ymgysylltu ehangach â'r diwydiant i helpu i ddatblygu'r fanyleb adeiladu

  o Prosiect Ysgogi Hydrogen - Caffael offer.
- **Ardal Forol Doc Penfro:**

  o Adolygu'r rhaglen/cwmpas/cyfarwyddo'r tendr dylunio ar gyfer gwaith seilwaith daearol.

  o Cyhoeddi Rownd Prydlesu Ystâd y Goron ar gyfer y Môr Celtaidd.

## Chwarter 4
## (Ionawr, Chwefror, Mawrth 2023)

- **Portffolio:** Diweddariad achos busnes o ran y portffolio a'i gyflwyno i'r Llywodraethau.
- **Seilwaith Digidol:** Parhau i gyflawni'r holl brosiectau a ffrydiau gwaith y Rhaglen.
- **Sgiliau a Thalentau:** Parhau i ymgysylltu ag ysgolion a derbyn prosiect peilot pellach.
- **HAPS:** Lansio Cronfa Datblygu'r Gadwyn Gyflenwi.
- **Glannau Abertawe:** Paratoi ar gyfer trosglwyddo a chomisiynu 71/72 Ffordd y Brenin cyn gweithredu yn Ch3 2023/24.
- **Yr Egin:** Dechrau cyflwyno Cam 2.
- **Pentre Awel:** Parth 3 yn dechrau ar y safle.
- **Campysau:** Dechrau'r gwaith ar safle Cam 1 Singleton.
- **Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel:**
  o Lansio rownd 2 y Gronfa Datblygu Eiddo
  o Prosiect Ysgogi Hydrogen - Gosod Offer
  o Asesiad SWITCH o geisiadau tendr a phenodi contractwr.
- **Ardal Forol Doc Penfro:**

  o Cwblhau'r gweithgareddau META gwreiddiol, cwblhau'r swyddfa ar gyfer rhandai'r Awyrendai a chyfleusterau gweithdy.

  o Parth Arddangos Sir Benfro yn sicrhau cyllid.



Campysau

Am fwy o wybodaeth am unrhyw un o'n prosiectau cysylltwch â:

**Ymholiadau Cyffredinol**
BDBA@sirgar.gov.uk

**Seilwaith Digidol**
Gareth Jones – GarethJones@sirgar.gov.uk

**Rhaglen Sgiliau a Thalentau**
Sam Cutlan – SCutlan@sirgar.gov.uk

**Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer**
Oonagh Gavigan – O.Gavigan@npt.gov.uk

**Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau**
Huw Mowbray – huw.mowbray@swansea.gov.uk

**Arena Abertawe**
Lisa Mart – LisaMart@theambassador.com

**Yr Egin**
Geraint Flowers – G.Flowers@uwtsd.ac.uk

**Canolfan S4C**
Carys Ifan – Carys.Ifan@uwtsd.ac.uk

**Pentre Awel**
Sharon Burford – SBurford@sirgar.gov.uk

**Campysau**
Clare Henson - c.m.henson@swansea.ac.uk

**Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel**
Brett Suddell - b.suddell@npt.gov.uk

**Canolfan Ragoriaeth a Pheirianneg Ynni Morol**
Paul Ellsmore - Paul.Ellsmore@ore.catapult.org.uk

**Ardal Profi Ynni'r Môr**
Tom Hill – Tom.Hill@marineenergywales.co.uk

**Parth Arddangos Sir Benfro**
Tim James – tim.james@celticseapower.co.uk

**Porthladd Aberdaugleddau**
Steven Edwards – Stephen.Edwards@mhpa.co.uk

Bargen Ddinesig
BAE ABERTAWE
SWANSEA BAY
City Deal

bargenddinesigbaeabertawe.cymru

BDBA@sirgar.gov.uk